# Cyfrifiad Blynyddol o'r Gweithlu Ysgolion (CBGY)
# Diwrnod y cyfrifiad: 4 Tachwedd 2025

Y casgliad data CBGY ar gyfer y flwyddyn academaidd 2025/2026

# Nodiadau cwblhau technegol
# Rhan 2: Datganiad data cyflog, adnoddau dynol ac absenoldeb

**Dyddiad cyhoeddi**: Awst 2025
**Fersiwn**: 1.0

# Cyfrifiad blynyddol o'r gweithlu ysgolion
# 4 Tachwedd 2025

**Cynulleidfa**

Penaethiaid, athrawon a chyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir sydd wedi penderfynu peidio â bod yn rhan o gytundebau lefel gwasanaeth at ddibenion adnoddau dynol a/neu'r gyflogres, awdurdodau lleol a chyrff cenedlaethol sydd â diddordeb mewn addysg.

**Trosolwg**

Caiff y nodiadau cwblhau technegol hyn eu darparu gan Lywodraeth Cymru fel canllaw i helpu'r gynulleidfa uchod i gydymffurfio â'u dyletswyddau statudol.

**Camau i'w cymryd**

Rhaid i'r gynulleidfa uchod sicrhau y caiff y gofynion yn y ddogfen hon eu gweithredu erbyn y dyddiadau a nodir.

**Rhagor o wybodaeth**

Os oes angen mwy o gyngor arnoch ar gwblhau unrhyw ran o ddatganiad y CBGY, cysylltwch â'ch awdurdod lleol yn y lle cyntaf.

Dylech anfon ymholiadau am y ddogfen hon i'r cyfeiriad isod, ond **peidiwch â chynnwys data unigol neu bersonol**:

Y Strategaeth Rheoli Gwybodaeth
Y Tîm Casgliadau Data
Y Gangen Gwybodaeth a Gwella Ysgolion
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 0300 062 5014
E-bost: IMS@llyw.cymru / SWAC.CBGY@llyw.cymru

@LIC_Addysg

@AddysgCymru

**Copïau ychwanegol**

Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn llyw.cymru.

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

ISBN Digidol 978-1-80633-294-6
© Hawlfraint y Goron Awst 2025
WG52870

## Cynnwys


**1. Trosolwg 1**

1.1 Newidiadau ers y flwyddyn ddiwethaf 1

**2. Datblygiadau yn y dyfodol 2**

**3. Dyddiadau pwysig 3**

**4. Cefndir 4**

**4.1 Cefndir 4**

**4.2 Cefndir 5**

**5. Strwythur ac amseru 6**

5.1 Datganiadau Ysgol a Datganiadau Cyflog, Adnoddau Dynol ac Absenoldeb 6

5.2 Dyddiadau casglu a chyflwyno 6

5.3 Mathau o ddata a gesglir - data ciplun a hanesyddol 6

5.4 Gweithredu'n raddol 7

5.5 Cofnodi, cyflwyno a dilysu data 8

Cofnodi a gwirio data 9

5.6 Diogelu a rhannu data 9

5.7 Rhestr wirio 10

**6. Pwy sy'n darparu'r data a beth y maent yn ei ddarparu? 12**

6.1 Lleoliadau perthnasol a lleoliadau nad yw hyn yn berthnasol iddynt 12

6.2 Pwy sy'n darparu'r data 12

6.3 Mathau o staff y mae angen data amdanynt 13

Staff yr ysgol 13

Staff cymorth 13

Staff ysgolion o fewn awdurdod lleol 14

6.4 Data sydd eu hangen ar gyfer pob aelod staff 15

6.5 Cofnodion lluosog ar gyfer un aelod staff 16

6.6 Staff yn ymgymryd â rolau ar lefel uwch 16

**7. Crynodeb o'r eitemau data i'w cyflwyno yn y datganiad ysgol 17**

7.1 Manylion yr arolwg 17

7.2 Dynodyddion ysgol 17

7.3 Dynodyddion y gweithlu (Set ddata ofynnol) 17

7.4 Cyflog a chontract 18

7.5 Absenoldebau 19

**8. Dilysu a chywiro gwallau 20**

**9. Adroddiad cryno 21**

**10. Creu ffeil ddata i'w chyflwyno 22**

10.1 Cael gafael ar ddata XML 22

**11. Cyflwyno'r datganiad drwy DEWi 24**

**12. Rhagor o wybodaeth** **25**
**Atodiad A: Setiau codau'r datganiad cyflog, adnoddau dynol ac absenoldeb** **26**

# 1. Trosolwg

Mae'r nodiadau yn y ddogfen hon at ddefnydd pob awdurdod lleol ac unrhyw ysgolion a gynhelir (meithrin, cynradd, canol, uwchradd ac arbennig), neu unedau cyfeirio disgyblion sydd **wedi penderfynu peidio â bod yn rhan o gytundebau lefel gwasanaeth eu hawdurdod lleol** o ran adnoddau dynol a/neu'r gyflogres wrth iddynt gwblhau elfen data **cyflog, adnoddau dynol ac absenoldeb** y Cyfrifiad Blynyddol o'r Weithlu Ysgolion (CBGY) ym mis Tachwedd 2025.

Mae'r ddogfen yn rhoi gwybod i ysgolion a'u hawdurdodau lleol pa aelodau staff y dylid eu cynnwys yn natganiad y CBGY, ac mae'n diffinio'r eitemau data amdanynt sy'n ofynnol yn y ddau gam. Dylai hyn helpu ysgolion ac awdurdodau lleol i ddarparu'r eitemau data gofynnol yn ôl y diffiniadau a nodir.

Pan ddefnyddir y term "ysgol" mewn ffordd gyffredinol yn y ddogfen, mae'n cynnwys pob math o ysgol a restrir uchod.

Mae'r CBGY wedi'i rannu'n ddau ddatganiad data: datganiad data **ysgol** a'r datganiad data **cyflog, adnoddau dynol ac absenoldeb**.

Mae'r ddogfen hon yn rhoi sylw i elfen data **cyflog, adnoddau dynol ac absenoldeb** y CBGY y mae'n rhaid i bob ysgol a gynhelir yng Nghymru eu darparu. Mae nodiadau cwblhau technegol tebyg ar gyfer elfen data **ysgol** y CBGY ar gael yma. Bydd yn ofynnol i bob awdurdod lleol nodi'r elfen **cyflog, adnoddau dynol ac absenoldeb** am staff eu hysgolion sydd ar eu cyflogres.

Bydd angen i ysgolion sydd **wedi penderfynu peidio â bod yn rhan o gytundebau lefel gwasanaeth at ddibenion adnoddau dynol a/neu'r gyflogres**, ac nad ydynt yn darparu gwybodaeth i'w hawdurdod lleol, **ddarparu <u>dwy</u> elfen y CBGY** i Lywodraeth Cymru, ac felly dylent ddarllen y nodiadau ar gyfer y ddau ddatganiad. Dylech drafod y trefniant hwn gyda'ch awdurdod lleol os oes unrhyw ddryswch ynghylch p'un a fydd yr awdurdod yn cyflwyno'r datganiad **cyflog, adnoddau dynol ac absenoldeb** ar eich rhan.

Dylid defnyddio'r ddogfen hon fel llawlyfr ar gyfer data a nodir yn systemau gwybodaeth reoli awdurdodau lleol ac ysgolion gydol y flwyddyn ynghylch staff, yn hytrach nag fel canllaw i'r gwaith casglu ei hun.

Dylid darllen y nodiadau cwblhau hyn ochr yn ochr ag unrhyw ganllaw meddalwedd i ddefnyddwyr dogfennau'r CBGY, ynghyd â'r dogfennau a ddarperir gan eich cyflenwr meddalwedd.

## 1.1 Newidiadau ers y flwyddyn ddiwethaf

Mae'r rhestr canlynol yn nodi'r prif newidiadau diwethaf ers y casgliad CBGY diwethaf:

- symud dyddiadau ymlaen blwyddyn

## 2. Datblygiadau yn y dyfodol

Nid oes unrhyw ddatblygiadau newydd ar y gweill ar gyfer y casgliad CBGY ar hyn o bryd.

## 3. Dyddiadau pwysig

Dylai awdurdodau lleol ac ysgolion sydd **wedi penderfynu peidio â chael eu rheoli gan lywodraeth leol** weithio yn unol â’r amserlen ganlynol er mwyn sicrhau eu bod yn cyflwyno datganiad heb unrhyw wallau ynddo ac sydd mor gywir â phosibl i Lywodraeth Cymru erbyn **dydd Mercher 17 Rhagfyr 2025**. Ni chaniateir cyflwyno rhagor o ddata ar ôl y dyddiad hwn.

| Dyddiad | Cam Gweithredu |
|---|---|
| **1 Medi 2025** | Bydd darparwyr systemau gwybodaeth reoli ysgolion yn trefnu bod modd i ysgolion gofnodi'r data gofynnol am lefel y gweithlu yn barod ar gyfer y cyfrifiad. |
| **4 Tachwedd 2025** | Diwrnod cyfrifiad CBGY 2025 |
| **4 Tachwedd i 17 Rhagfyr 2025** | Gwefan DEWi ar agor ar gyfer cyflwyno data **Ysgol** CBGY a data **Cyflogau, AD ac Absenoldebau** CBGY |
| **17 Rhagfyr 2025** | Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno datganiadau i Lywodraeth Cymru drwy DEWi |

# 4. Cefndir

## 4.1 Cefndir

Mae angen y CBGY er mwyn darparu gwybodaeth gynhwysfawr am:

- faint y gweithlu;
- demograffeg y staff;
- lefelau recriwtio a chadw staff;
- defnydd o athrawon cyflenwi;
- absenoldebau;
- y capasiti o ran addysgu drwy'r Gymraeg ac addysgu pynciau penodol; â
- cost cyflogau athrawon yng Nghymru.

Caiff gwybodaeth y CBGY ei defnyddio i lywio polisi Llywodraeth Cymru ar faterion sy'n ymwneud â'r gweithlu ysgolion yng Nghymru, gan gynnwys cyflog ac amodau, recriwtio a chadw staff, ac wrth gyfrifo costau bil cyflogau athrawon yng Nghymru ac effaith unrhyw newidiadau.

Defnyddir y data i gynllunio'r gweithlu, gan ystyried: gofynion hyfforddiant posibl, pynciau a addysgir, y defnydd o athrawon cyflenwi, a rolau ychwanegol a gyflawnir gan staff. Caiff y data eu defnyddio hefyd i fonitro cydraddoldeb ac amrywiaeth o fewn y gweithlu ysgolion, a gallu Llywodraeth Cymru i weithredu strategaeth Cymraeg 2050 drwy addysg cyfrwng Cymraeg.

Mae data ar lefel unigol yn darparu llawer mwy o wybodaeth nag sy'n bosibl drwy ddata am glwstwr o ysgolion ac ar lefel awdurdod lleol. Byddant yn ei gwneud yn bosibl gwneud y gwaith dadansoddi cymhleth sy'n ofynnol er mwyn gwella'r broses o gynllunio'r gweithlu, nodi beth yw'r prif faterion sy'n effeithio ar ysgolion, a helpu i ddatblygu, gweithredu a monitro polisïau sy'n ymwneud â'r gweithlu ysgolion yng Nghymru.

Bydd hyn yn darparu gwybodaeth fwy trylwyr a manwl er mwyn gallu cynllunio'r gweithlu ac olyniaeth yn well ar lefel ysgol, awdurdod lleol a chenedlaethol. Mae angen hyn er mwyn deall yn well nodweddion a chyfansoddiad y gweithlu ysgolion yng Nghymru o ran proffil oedran, cymwysterau ac amrywiaeth. Bydd yn helpu i nodi'r meysydd pryder ar draws lleoliadau ysgolion a meysydd pynciau o ran trosiant ac amseru, ac yn sicrhau bod polisïau a chynlluniau'r gweithlu yn cael eu datblygu i dargedu'r problemau go iawn.

Er y bydd yn rhaid i ysgolion ac awdurdodau lleol ymdopi â'r baich cychwynnol o roi sylw i'w systemau, bydd y CBGY yn helpu i leihau'r adnodd sydd ei angen i barhau i reoli'r wybodaeth drwy ddisodli'r nifer fawr o geisiadau a ddaw i law ar wahanol adegau o'r flwyddyn, sy'n defnyddio gwahanol ddiffiniadau a fformatiau yn aml. Bydd symleiddio'r casgliadau hyn (gan gasglu eitemau sefydlog unwaith a'u rhannu mewn ffordd briodol) yn lleihau effaith gwaith casglu data ar ysgolion ac awdurdodau lleol, ac yn gwella ansawdd, cysondeb ac amseroldeb y data a gesglir ac a gofnodir.

Cesglir data ar sail yr egwyddor casglu unwaith, a'u defnyddio sawl gwaith; a dylai'r rhan fwyaf o'r data a gesglir fod yn ddata y mae ysgol ac awdurdod lleol trefnus yn eu defnyddio eu hunain at ddibenion cynllunio.

Mae cywirdeb y data yn hollbwysig. Yn wir, yr egwyddor sylfaenol yn holl waith casglu data Llywodraeth Cymru yw y dylai fod yn gofnod cywir o'r sefyllfa go iawn.

## 4.2 Cefndir

Defnyddir y wybodaeth a gesglir trwy’r CBGY mewn amrywiaeth o ffyrdd o fewn a thu allan i Lywodraeth Cymru. Dyma rai o’r prif ddefnyddwyr. Dyma ychydig o enghreifftiau:

- darparu tystiolaeth i’r Corff Adolygu Cyflogau Annibynol Cymru (IWPRB) i oleuo trafodaethau ac ystyriaethau fel rhan o adolygiad blynyddol o gyflogau athrawon;
- dyrannu adnoddau yn y Grant Addysgu Proffesiynol;
- mesur angen cenedlaethol am athrawon newydd gymhwyso mewn sefydliadau wedi’u cynnal yn y dyfodol a gosod dyraniadau biynddol addysg cychwynnol i athrawon (ACA) ar gyfer darparwyr rhaglenni ACA;
- darparu cyngor i weinidogion;
- i hysbysu’r broses o wneud penderfyniadau o fewn polisïau addysg yng Nghymru, gan gynnwys ad-drefnu ysgolion , Cynllun Cymraeg mewn Addysg, Anghenion Addysgu Ychwanegol ymysg polisiau eraill;
- i gynorthwyo ymchwil addysgol.

# 5. Strwythur ac amseru

## 5.1 Datganiadau Ysgol a Datganiadau Cyflog, Adnoddau Dynol ac Absenoldeb

Rhennir y CBGY ar gyfer staff sy'n gweithio mewn ysgolion yn ddwy elfen - datganiad data **ysgol** a datganiad data **cyflog, adnoddau dynol ac absenoldeb**. I bob datganiad mae modiwlau data sy'n ymwneud â thema neu bwnc penodol. Mae'r datganiad **ysgol** a'r datganiad **cyflog, adnoddau dynol ac absenoldeb** yn cynnwys modiwl dynodyddion y gweithlu (y cyfeirir ato hefyd fel y *set ddata sylfaenol* ar gyfer y CBGY) sy'n ofynnol er mwyn cysylltu gwybodaeth y ddau ddatganiad a'i gwneud yn bosibl dadansoddi'r tueddiadau dros amser.

**Rhaid** i bob ysgol a gynhelir ac uned cyfeirio disgyblion ddarparu'r elfen **ysgol**.

Mae'n ofynnol i bob awdurdod lleol ddarparu elfen **cyflog, adnoddau dynol ac absenoldeb** y CBGY.

Bydd angen i ysgolion sydd **wedi penderfynu peidio â bod yn rhan o gytundebau lefel gwasanaeth at ddibenion adnoddau dynol a/neu'r gyflogres**, ac nad ydynt yn darparu gwybodaeth i'w hawdurdod lleol, **ddarparu dwy elfen y CBGY** i Lywodraeth Cymru, ac felly dylent ddarllen y nodiadau ar gyfer y ddau ddatganiad.

Mae'r modiwlau ym mhob datganiad, a'r eitemau data ym mhob modiwl, wedi'u rhestru yn adran 7.

## 5.2 Dyddiadau casglu a chyflwyno

Caiff data eu casglu bob blwyddyn drwy'r CBGY. Dyddiad y cyfrifiadar gyfer y flwyddyn hon yw 4 **Tachwedd 2025**. Dylid seilio'r data **ciplun** ar ddyddiad y cyfrifiad. Yn y dyfodol, dydd Mawrth cyntaf mis Tachwedd fydd dyddiad y cyfrifiad, ac eithrio lle bydd hyn yn syrthio adeg gwyliau hanner tymor, ac os felly y dydd Mawrth cyntaf ar ôl y gwyliau hanner tymor fydd y dyddiad.

Y dyddiad cau ar gyfer dychwelyd y cyfrifiad i Lywodraeth Cymru yw **17 Rhagfyr 2025**. Os yw ysgol yn gyfrifol am gyflwyno'r datganiad **ysgol** a'r datganiad **cyflog, adnoddau dynol ac absenoldeb** , **rhaid** cyflwyno'r datganiadau ar wahân i Lywodraeth Cymru drwy DEWi erbyn **17 Rhagfyr 2025** i ganiatáu i wallau gael eu cywiro, ac i'r datganiadau gael eu hawdurdodi a'u gwirio o ran hygrededd (gweler adran 8) cyn i gyfnod cyflwyno'r data ddod i ben.  Efallai y bydd awdurdodau lleol yn gofyn i'w hysgolion gyflwyno ffeiliau iddynt yn gynharach na hyn a byddant yn rhoi gwybod i'w hysgolion beth yw dyddiad dychwelyd y ffeiliau.

## 5.3 Mathau o ddata a gesglir - data ciplun a hanesyddol

Mae'r CBGY yn ei gwneud yn ofynnol darparu cofnodion am staff unigol, yn hytrach nag am grwpiau o staff, ac eithrio yn y modiwl sy'n ymwneud â'r defnydd a wneir o staff cyflenwi, lle dylid darparu ffigurau ar sail grwpiau.

Mae llawer o'r data i'w casglu yn ymwneud â nodweddion neu statws unigolion o fewn y gweithlu ysgol ar ryw adeg benodol, hy data **ciplun**. Mae'r casgliad hefyd yn cynnwys eitemau data **hanesyddol**, sy'n cofnodi data am y flwyddyn academaidd flaenorol.

Gallai'r rhain gynnwys data am staff sydd wedi gadael yr ysgol cyn dyddiad y cyfrifiad.

Bydd dau o fodiwlau data datganiad **cyflog, adnoddau dynol ac absenoldeb** y CBGY yn cofnodi data am y flwyddyn academaidd flaenorol ac yn creu'r eitemau data **hanesyddol** (ac felly'n cyflwyno'r canlynol at ddibenion cam 2):

- manylion "**cyflog a chontract**" (*yn y datganiad **cyflog, adnoddau dynol ac absenoldeb***) a fydd yn cynnwys data am aelodau staff a adawodd, neu y daeth eu contract i ben, yn ystod y flwyddyn academaidd flaenorol;
- manylion am "**absenoldebau"** (*yn y datganiad **cyflog, adnoddau dynol ac absenoldeb**), a fydd yn cynnwys absenoldebau a gymerwyd yn gyfan gwbl yn ystod y flwyddyn academaidd cyn dyddiad y cyfrifiad, neu a gymerwyd yn rhannol yn ystod y flwyddyn honno.*

Bydd casgliadau data diweddarach yn ein galluogi i barhau i gael darlun o agweddau penodol ar y gweithlu ysgolion a dadansoddi materion dros gyfnod fel recriwtio a chadw athrawon, a datblygiad athrawon yn ystod eu gyrfa.

**Rhaid** i ddata **ciplun,** er enghraifft ynghylch swydd, ystod cyflog neu gyflog sylfaenol fod yn gywir ar ddyddiad y cyfrifiad. Dylid eu darparu ar gyfer pob aelod staff a gyflogir gan yr awdurdod lleol ar y pryd, ac sydd o fewn cwmpas y cyfrifiad. Wrth ddewis pa aelodau staff i'w cynnwys fel testun y data, ystyrir y rôl a gofnodir ar eu cyfer. Yn achos awdurdodau lleol, ysgolion neu unedau cyfeirio disgyblion nad oes ganddynt system gwybodaeth reoli sy'n gallu dod o hyd i'r wybodaeth ofynnol, mae taenlenni penodol ar gael i nodi'r manylion.

At ddibenion y CBGY, diffinnir y flwyddyn academaidd fel y cyfnod rhwng 1 Medi a 31 Awst. Cofiwch nad yw'r data **hanesyddol** a'r data **ciplun** yn gorgyffwrdd yn gyffredinol. Mae bwlch rhwng data'r flwyddyn academaidd flaenorol a'r data **ciplun**, ac yn ystod y bwlch hwnnw efallai y bydd staff wedi gadael neu y bydd newidiadau eraill wedi digwydd, ond caiff y newidiadau hyn eu cofnodi yn nata **hanesyddol** y flwyddyn wedyn. Bydd data **ciplun** yn rhoi darlun cyflawn o'r gweithlu cyfredol. Bydd data **hanesyddol**, ar y llaw arall, yn dangos y newidiadau a'r gweithgareddau a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn academaidd flaenorol. Mae'r ddwy set yn darparu onglau gwahanol, felly, ar gyfer monitro a chofnodi.

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod mewn trafodaethau â chyflenwyr meddalwedd systemau gwybodaeth reoli ers rhai blynyddoedd, a datblygwyd eu meddalwedd i allu dod o hyd i ddata **ciplun** a **hanesyddol** perthnasol y CBGY. Er mwyn i hyn weithio, mae'n bwysig diweddaru'r wybodaeth yn rheolaidd; er enghraifft, nodi dyddiad diwedd contract pob aelod staff sydd wedi gadael yr ysgol.

## 5.4 Gweithredu'n raddol

Mae'r CBGY wedi ei weithredu'n raddol. Cynhaliwyd y cyfrifiad cyntaf ym mis Tachwedd 2019, gan gasglu gwybodaeth ar gyfer modiwlau'r data **ciplun** yn unig. Casglwyd data **hanesyddol** drwy'r CBGY am y tro cyntaf ym mis Tachwedd 2021 (cam 2) ac honno oedd y cyfrifiad casgliad llawn cyntaflle casglwyd data ar gyfer pob modiwl.

Gan y bydd y modiwlau **hanesyddol** ym mis Tachwedd 2025 yn casglu data o 1 Medi 2024 i 31 Awst 2025, mae'n hanfodol eich bod yn darllen y nodiadau ar y modiwlau data **hanesyddol** a dechrau nodi'r manylion yn eich systemau mewn da bryd. **Yr arfer gorau yw cynnal cofnodion cywir yn rheolaidd, gan y bydd hyn yn sicrhau eich bod yn cydymffurfio'n llawn â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) 2018 ac yn lleihau'r baich o lunio datganiad CBGY heb wallau.**

| Datganiad | Modiwl data | Natur y data | Cyfnod dan sylw |
|---|---|---|---|
| **Ysgol** | Dynodyddion y gweithlu* | **Ciplun** | Dyddiad nodi'r data (neu ddyddiad gadael y staff sydd wedi gadael) |
| **Ysgol** | Cwricwlwm* | **Ciplun** | Amserlen cyfnod 10 diwrnod gwaith arferol (neu sy'n cyfateb i gyfnod 10 diwrnod gwaith arferol dros gylch amserlen yr ysgol) |
| **Ysgol** | Rolau* | **Ciplun** | Manylion y rolau a gyflawnir gan unigolion |
| **Ysgol** | Recriwtio* | **Hanesyddol** | Swyddi a oedd ar gael neu a ddaeth i ben rhwng 1 Medi 2024 a 31 Awst 2025 y flwyddyn academaidd cyn dyddiad y cyfrifiad, gan gynnwys swyddi nas llenwyd |
| **Ysgol** | Cadw staff* | **Hanesyddol** | Unigolion a adawodd y proffesiwn neu a ymddeolodd (yn gynnar neu ar ôl cyrraedd yr oedran ymddeol arferol) |
| **Ysgol** | Cyflenwi* | **Hanesyddol** | Data ar sail grŵp ar gyfer 1 Medi 2024 i 31 Awst 2025 |
| **Cyflog, Adnoddau Dynol ac Absenoldeb** | Cyflog a chontractau | **Ciplun** | Contractau a chytundebau gwasanaeth perthnasol sydd ar agor ar ddyddiad y cyfrifiad |
| **Cyflog, Adnoddau Dynol ac Absenoldeb** | | **Hanesyddol** | Contractau a chytundebau gwasanaeth a ddaeth i ben rhwng 1 Medi 2024 a 31 Awst 2025 |
| **Cyflog, Adnoddau Dynol ac Absenoldeb** | Absenoldebau | **Hanesyddol** | Absenoldebau a ddechreuodd neu a ddaeth i ben rhwng 1 Medi 2024 a 31 Awst 2025, gan gynnwys staff a adawodd yn ystod y cyfnod hwn. |

* Dim ond yn y datganiad **ysgol** a gyflwynir gan yr ysgol ei hun neu gan **ysgolion sydd wedi penderfynu peidio â chael eu rheoli gan lywodraeth leol** y bydd y modiwlau hyn yn bodoli.

## 5.5 Cofnodi, cyflwyno a dilysu data

Mae’r canlynol yn disgrifio’r camau i ddychwelyd datganiad data **ysgol sydd wedi penderfynu peidio â chael ei rheoli gan lywodraeth leol** y CBGY:

a. yr **awdurdod lleol** neu **ysgol sydd wedi penderfynu peidio â chael ei rheoli gan lywodraeth leol** (pa un bynnag sy'n gyfrifol am y datganiad) i sicrhau bod yr holl ddata perthnasol am y staff wedi'u nodi'n gywir yn ei system adnoddau dynol a/neu gyflogres, gan sicrhau bod unrhyw ddata coll yn cael eu cwblhau yn ôl y gofyn;

b. yr **awdurdod lleol** neu **ysgol sydd wedi penderfynu peidio â chael ei rheoli gan lywodraeth leol** i greu datganiad y CBGY ar sail ei system adnoddau dynol a/neu gyflogres;

c. yr **awdurdod lleol** neu **ysgol sydd wedi penderfynu peidio â chael ei rheoli gan lywodraeth leol** i astudio'r adroddiadau dilysu a chraffu'n ofalus ar y crynodebau, gan chwilio'n benodol am arwyddion bod data staff heb eu cofnodi, a datrys unrhyw wallau neu gwestiynau lle bo'n bosibl;

d. yr **awdurdod lleol** neu **ysgol sydd wedi penderfynu peidio â chael ei rheoli gan lywodraeth leol** i anfon y datganiad, drwy system trosglwyddo data ddiogel ar-lein DEWi, ynghyd â'r crynodeb, i'r awdurdod lleol;

e. yr **awdurdod lleol** neu **ysgol sydd wedi penderfynu peidio â chael ei rheoli gan lywodraeth leol**, unwaith yr eir i'r afael â'r gwallau a'r cwestiynau, i anfon y datganiad, drwy system trosglwyddo data ddiogel ar-lein DEWi, i Lywodraeth Cymru;

f. **Llywodraeth Cymru** i wirio'r datganiad a sicrhau nad oes gwallau na chwestiynau, neu fod ganddi esboniadau y gellir eu cyfiawnhau;

g. **Llywodraeth Cymru** i lawrlwytho'r data i system Llywodraeth Cymru.

Ni ddylid rhannu unrhyw ddata personol ar unrhyw adeg y tu allan i system trosglwyddo data ddiogel ar-lein DEWi, a ddarperir gan Weinidogion Cymru i sicrhau diogelwch data yn ogystal â chydymffurfiaeth lawn â GDPR a Deddf Diogelu Data 2018.

**Cofnodi a gwirio data**

Mae’r nodiadau cwblhau hyn yn rhoi rhestr gyflawn o’r holl eitemau o ddata y mae’n rhaid eu cynnwys yn eich system a’u cyflwyno yn eich datganiad CBGY. Nodwch fod y cyfeirnodau ar gyfer y meysydd data yn y ddogfen hon yn dangos y gwerthoedd data a’r tagiau fel y maent wedi’u cynnwys yn y ffeil ddata y mae eich meddalwedd yn ei pharatoi i’w throsglwyddo i Lywodraeth Cymru. Cofiwch nad yw’r gwerthoedd a’r tagiau hyn bob amser yn cyd-daro efallai â’r ffordd y mae’r feddalwedd yn cadw’r data’n fewnol neu’n eu cyflwyno i chi ar sgrîn y defnyddiwr.

Efallai y bydd y cofnodion ar gyfer staff unigol yn cael eu cynhyrchu’n awtomatig ar gyfer y datganiad **cyflog, adnoddau dynol ac absenoldeb** gan y system adnoddau dynol a/neu gyflogres, ac efallai na fydd modd addasu rhannau ohonynt.

**Mae’n hanfodol felly bod yr holl ddata perthnasol am staff yn cael eu rhoi ar eich systemau adnoddau dynol a/neu gyflogres yn gywir cyn dechrau ar eich datganiad CBGY.**

## 5.6 Diogelu a rhannu data

Mae'r GDPR a Deddf Diogelu Data yn mynnu rhai mesurau diogelu wrth i sefydliadau ddefnyddio data personol, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol ac ysgolion. Mae'r ddwy ddeddfwriaeth yn rhoi hawliau i'r rheini y mae data yn cael eu

prosesu yn eu cylch (testunau'r data), ee disgyblion, rhieni ac athrawon. Mae hyn yn cynnwys (ymhlith gwybodaeth arall y mae'n rhaid inni ei darparu):

- yr hawl i wybod y mathau o ddata sy'n cael eu cadw;
- pam maent yn cael eu cadw; â
- â phwy y byddant yn cael eu rhannu.

At ddibenion deddfwriaeth diogelu data, mae'r term 'prosesu' yn berthnasol i unrhyw weithgarwch sy'n ymwneud â data personol, ee (nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysfawr):

- casglu;
- storio;
- rhannu; â
- dinistrio.

Mae'n hollbwysig bod pob awdurdod lleol ac ysgol, fel proseswyr a rheolwyr data ynddynt eu hunain, yn prosesu pob eitem ddata (nid dim ond yr hyn a gesglir at ddibenion y cyfrifiad) yn unol â gofynion llawn GDPR. Mae mwy o wybodaeth am GDPR ar gael yn nhrosolwg Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth o GDPR.

O dan GDPR a Deddf Diogelu Data, mae dyletswydd gyfreithiol ar ysgolion ac awdurdodau lleol i sicrhau yr ymdrinnir ag unrhyw ddata personol a brosesir mewn ffordd ofalus ac y cânt eu storio'n ddiogel.

Lle na chaiff data personol eu diogelu'n briodol, gallai amharu ar ddiogelwch unigolion ac ar eu henw da. Mae eich cyfrifoldeb fel rheolwr data yn ymestyn i'r rheini sydd â mynediad i'ch data y tu hwnt i'ch sefydliad lle maent yn gweithio ar eich rhan; er enghraifft, lle gall cyflenwyr TG allanol gael gafael ar eich gwybodaeth o bell.

Mae'n **hollbwysig** bod pawb o'r staff sydd â mynediad i ddata personol yn deall pwysigrwydd:

- diogelu data personol;
- ymgyfarwyddo â'ch polisi diogelwch;
- rhoi gweithdrefnau diogelwch ar waith.

**Rhaid** rhoi hyfforddiant priodol, felly, i'r holl staff i sicrhau eu bod yn cydymffurfio'n llawn â GDPR a Deddf Diogelu Data.

## 5.7 Rhestr wirio

- Sicrhewch bod y diweddariadau diweddaraf wedi'u gweithredu i Systemau Rheoli Gwybodaeth (SRhG) yr ysgol neu system AD / cyflogresi yr awdurdod lleol.
- Ydych chi yn gymwys â Rheoliadau Cyffredinol Diogelu Data? Oes Hysbysiadau Preifatrwydd yn eu lle ar gyfer holl staff ac wedi'u rhannu ag unrhyw aelodau staff newydd?
- Oes unrhyw newidiadau i'r Cyfrifiad Blynyddol o'r Gweithlu Ysgol (CBGY) eleni yn gymwys i chi?
- Yw holl manylion staff wedi'u diweddaru ac yn gywir?
- Yw pob maes gorfodol wedi'u llenwi ar gyfer pob aelod o staff?

- Os ydych yn defnyddio’r daenlen wrth gefn i gyflwyno’r data, gwiriwch i sicrhau bod pob maes wedi’u llenwi gan ddefnyddio’r fformat busnes cywir (e.e. dim testun wedi’u cynnwys mewn maes rhifol neu dyddiad).
- Ydych chi wedi cynnwys yr holl wybodaeth taliadau ychwanegol ar gyfer eich awdurdod lleol / ysgol?
- Ydych chi wedi cynnwys yr holl wybodaeth absenoldebau trwy salwch athrawon ar gyfer eich awdurdod lleol / ysgol?

# 6. Pwy sy'n darparu'r data a beth y maent yn ei ddarparu?

## 6.1 Lleoliadau perthnasol a lleoliadau nad yw hyn yn berthnasol iddynt

Fel rhan o'r CBGY **rhaid** cyflwyno gwybodaeth am unigolion sy'n gweithio yn y mathau canlynol o leoliadau a gynhelir yng Nghymru:

- ysgolion meithrin;
- ysgolion cynradd;
- ysgolion canol;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion.

Fel y nodir yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion statudol Llywodraeth Cymru, dyma’r categorïau o "ysgolion a gynhelir" yng Nghymru: ysgolion cymunedol, ysgolion gwirfoddol a reolir, ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir, ysgolion sefydledig ac ysgolion arbennig cymunedol.

**Ni** ddylid darparu gwybodaeth am unigolion mewn:

- lleoliadau blynyddoedd cynnar;
- ysgolion annibynnol a gyllidir yn breifat;
- ysgolion arbennig nas cynhelir;
- colegau chweched dosbarth;
- sefydliadau addysg bellach;
- ysgolion addysg plant y lluoedd arfog;
- sefydliadau addysg eraill o bob math.

Mae Rheoliadau Addysg (Cyflenwi Gwybodaeth am y Gweithlu Ysgolion) (Cymru) 2017 yn ei gwneud yn ofyniad statudol i ysgolion ac awdurdodau lleol gyflwyno datganiad y CBGY, gan gynnwys cyfres o gofnodion am staff unigol. Mae hyn yn golygu:

- er bod yn rhaid i ysgolion ac awdurdodau lleol gyflawni eu rhwymedigaethau o ran testunau data o dan Deddf Diogelu Data (gweler adran 5.6), nad oes angen iddynt gael caniatâd i ddarparu gwybodaeth gan aelodau unigol o'r gweithlu;
- bod ysgolion ac awdurdodau lleol wedi'u diogelu rhag yr her gyfreithiol o beidio ag anrhydeddu eu dyletswydd o ran ymddiriedaeth aelodau staff;
- bod yn **rhaid** i ysgolion ac awdurdodau lleol gwblhau datganiad.

## 6.2 Pwy sy'n darparu'r data

**Rhaid** i bob awdurdod lleol gyflwyno datganiad **cyflog, adnoddau dynol ac absenoldeb** ar sail eu systemau adnoddau dynol a chyflogres. Os ydych yn ysgol sydd **wedi penderfynu peidio â bod yn rhan o gytundebau lefel gwasanaeth eich awdurdod lleol** ac nad ydych yn darparu data i'ch awdurdod lleol, bydd angen ichi gyflwyno'r datganiad **cyflog, adnoddau dynol ac absenoldeb** eich hun, yn ogystal â'r datganiad **ysgol**, drwy gyflwyno'r ffeiliau yn uniongyrchol i DEWi. Os ydych yn ysgol sydd **wedi penderfynu peidio â bod yn rhan o gytundebau lefel gwasanaeth eich**

**awdurdod lleol** ond sy'n dal i ddarparu rhywfaint o ddata neu eich holl ddata i awdurdodau lleol, mae'n bosibl y bydd eich awdurdod lleol yn dal i allu darparu'r data perthnasol ar gyfer y datganiad **cyflog, adnoddau dynol ac absenoldeb**. Mae **ysgolion sydd wedi penderfynu peidio â bob yn rhan o gytundebau lefel gwasanaeth eu hawdurdod lleol** yn rhydd i ddod i drefniadau rhannu data â'u hawdurdod lleol a all ddarparu'r wybodaeth ar eu rhan.

O 2019, cafodd math newydd o gyfrif defnyddwyr DEWi ei sefydlu ar gyfer elfennau adnoddau dynol a/neu gyflogres datganiad y CBGY y bydd yr awdurdod lleol ac **ysgolion sydd wedi penderfynu peidio â bod yn rhan o gytundebau lefel gwasanaeth eu hawdurdod lleol** yn ymwneud â nhw.

## 6.3 Mathau o staff y mae angen data amdanynt

### Staff yr ysgol

Mae angen data am weithlu'r ysgol ar lefel unigol, sef am athrawon a staff cymorth sy'n gweithio i ysgolion â chontract agored ar ddyddiad y cyfrifiad neu am unigolion â chontract sydd wedi gorffen yn ystod y flwyddyn academaidd blaenorol. Mae'r canlynol, os ydynt yn eu swydd ar ddyddiad y cyfrifiad, yn enghreifftiau o'r rheini y mae'n **rhaid** i'r data amdanynt fod wedi'u nodi yn y datganiadau **ysgol** a **chyflog, adnoddau dynol ac absenoldeb**, at ddibenion data gweithlu'r ysgol:

- athrawon a gyflogir gan yr ysgol, yn rhai â Statws Athro Cymwysedig (SAC) a hebddo;
- staff cymorth a gyflogir gan yr ysgol;
- athrawon sy'n gweithio yn yr ysgol fel athrawon cyflenwi drwy asiantaeth neu awdurdod lleol sy'n gweithredu fel asiantaeth gyflenwi;
- staff sy'n absennol gyda thâl neu heb dâl, boed am gyfnod hir neu gyfnod byr;
- athrawon dan hyfforddiant sydd ar gyfnod ymarfer addysgu;
- athrawon ar raglen School Direct, Rhaglen Athro a Hyfforddwyd Dramor a rhaglen Teach First;
- athrawon cymwysedig sy'n ffurfio *cronfa* ar gyfer ysgolion, os ydynt yn addysgu'n rheolaidd mewn ysgol neu ysgolion penodol.

### Staff cymorth

Mae'r CBGY yn rhoi sylw i athrawon a staff cymorth a gyflogir yn llawn-amser ac yn rhan-amser[1] yn y lleoliadau a gynhelir yng Nghymru.

Wrth sôn am "staff cymorth"[2], dyma'r staff sydd dan sylw:

- "Cynorthwywyr addysgu": Y staff cymorth sy'n gweithio yn y dosbarth i helpu gyda'r dysgu a staff sy'n helpu disgyblion, er enghraifft cynorthwywyr addysgu lefel uwch, cynorthwywyr addysgu, staff cymorth anghenion arbennig, swyddogion/cynorthwywyr meithrin, staff cymorth disgyblion sydd o gefndir lleiafrif ethnig a chynorthwywyr dwyieithog; â

[1] Dylid cynnwys staff rhan-amser sydd yn yr ysgol fel rheol, ond sy'n gweithio ar ddyddiau o'r wythnos sy'n wahanol i ddyddiad y cyfrifiad.
[2] Mae'r set godau lawn a ddarperir yn atodiadau A yn nodi holl swyddi'r staff cymorth y disgwylir data ar eu cyfer.

- "Staff cymorth eraill": Y staff cymorth nad ydynt yn gweithio yn y dosbarth, er enghraifft metroniaid/nyrsys/staff meddygol, llyfrgellwyr, technegwyr TG, technegwyr, staff gweinyddol, bwrsariaid a staff gweinyddol/clerigol eraill.

**Staff ysgolion o fewn awdurdod lleol**

Yn ogystal â'r staff ysgol a ddisgrifir uchod, mae angen data ar lefel unigol ar gyfer **cyflog, adnoddau dynol ac absenoldeb** gan awdurdodau lleol am bob athro ac athro ymgynghorol a gyflogir yn ganolog, ac am staff cymorth a gyflogir yn ganolog sy'n treulio'r rhan fwyaf o'u hamser mewn ysgolion. Mae 'y rhan fwyaf o'u hamser' yn golygu eu bod yn treulio mwy na hanner eu hamser gwaith (hynny yw, mwy na 50%) mewn ysgolion. Dim ond y rheini sydd yn eu swydd ar ddyddiad y cyfrifiad neu a oedd yn eu swydd yn ystod y flwyddyn academaidd cyn dyddiad y cyfrifiad y dylid eu cynnwys.

Dylai fod contract gan bob aelod o staff a gyflogir gan yr awdurdod lleol, y mae angen data ar lefel gweithlu'r ysgol amdano. Nid oes angen cofnodion am gytundebau gwasanaeth staff a gyflogir yn ganolog.

Yn benodol, **dylid** cynnwys y staff canlynol a gyflogir yn uniongyrchol gan yr awdurdod lleol hefyd:

- O ran athrawon:
    - athrawon peripatetig - athrawon sydd fel rheol yn mynd i nifer o ysgolion bob wythnos ar sail amserlen reolaidd, fel arfer am fod ganddynt wybodaeth neu sgil arbenigol;
    - athrawon sy'n gweithio ym maes addysg y tu allan i leoliad ysgol, er enghraifft athrawon sy'n darparu addysg AAA o dan adran 319 Deddf Addysg 1996, staff a gyflogir fel athrawon mewn sefydliadau nad ydynt yn ysgolion neu'n unedau cyfeirio disgyblion, er enghraifft athrawon mewn ysbytai neu ganolfannau sy'n cael eu rhedeg gan wasanaethau cymdeithasol, neu'r rheini sy'n darparu gwersi gartref;
    - lle mae'r awdurdod lleol yn gweithredu fel asiantaeth gyflenwi, gan ddarparu athrawon i ysgolion am gyfnod sefydlog neu dros dro;
- athrawon ymgynghorol - athrawon cymwysedig yn aml sy'n cyflawni amrywiaeth o ddyletswyddau, gan gynnwys hyfforddi staff, helpu i ddatblygu a gweithredu polisi ysgol a chymorth yn y dosbarth. At ddibenion y CBGY, dylid trin athrawon ymgynghorol fel staff cymorth yn hytrach nag athrawon o ran yr eitemau data y mae angen eu darparu. Ni ddylid ystyried p'un a ydynt ar gyflog athro ac o dan amodau athro;
- staff cymorth, gan gynnwys cynorthwywyr addysgu, sy'n treulio'r rhan fwyaf o'u hamser mewn ysgolion ac y mae eu rôl wedi'i rhestru yn y set codau rolau, er enghraifft technegwyr TGCh;
- staff a gyflogir gan yr awdurdod lleol sy'n darparu cymorth i ysgolion, er enghraifft athrawon cerddoriaeth peripatetig, athrawon ymgynghorol, seicolegwyr addysg, swyddogion lles addysg (yr awdurdod lleol fydd yn cyflwyno gwybodaeth am y rhain). Ni ddylid cynnwys staff sy'n gweithio mewn gwasanaethau ysgol estynedig yn y CBGY.

**Nid** oes angen data ar lefel unigol yn y datganiad **cyflog, adnoddau dynol ac absenoldeb am y canlynol**:

- staff dros dro heb gontractau, a gyflogir ar sail ad hoc;
- staff sy'n gweithio mewn darpariaeth gwasanaeth ysgol estynedig, er enghraifft clybiau brecwast ac ar ôl ysgol, Dechrau'n Deg a chanolfannau plant;
- athrawon sydd ond yn addysgu ar sail un-i-un tu allan i leoliad yr ysgol (e.e. tiwtora personol neu addysgu i fynd i'r afael â phroblemau dysgu sy'n bersonol ac yn benodol i bob plentyn, a gall ddigwydd mewn lleoliad mewn tref fel llyfrgell);
- llywodraethwyr a staff gwirfoddol;
- staff nad oes cod dynodi rôl ar eu cyfer sy'n cyfateb i'r swyddogaeth y maent yn ei chyflawni, er enghraifft clerc i'r llywodraethwyr, staff sy'n helpu plant i groesi'r ffordd;
- staff a gaiff eu talu yn unol â chyflog ac amodau athrawon, ond nad ydynt yn perthyn i un o'r categorïau uchod. Nid yw'r ffaith bod rhywun yn cael ei dalu yn unol â Chyflog ac Amodau Athrawon yn golygu o reidrwydd y dylid ei gynnwys yn y CBGY, er enghraifft, cyn-athro sydd nawr yn gweithio fel uwch-reolwr gyda'r awdurdod lleol.

Os bydd aelod o'r staff yn gweithio mewn dau sefydliad, a bod un ohonynt yn berthnasol i'r CBGY a'r llall heb fod yn berthnasol, yna dim ond mewn perthynas â'r gweithgarwch perthnasol y dylid nodi gwybodaeth. Er enghraifft, efallai y bydd cynorthwyydd meithrin yn gweithio mewn canolfan Dechrau'n Deg a meithrinfa a gynhelir. Yn yr achos hwn, dim ond mewn perthynas â'r cyfnod y mae'n gweithio yn y feithrinfa a gynhelir y byddai angen nodi'r data ar lefel unigol.

Os bydd awdurdodau lleol yn ansicr ynghylch pa staff y dylid eu cynnwys yn y CBGY, dylent gysylltu â Llywodraeth Cymru.

## 6.4 Data sydd eu hangen ar gyfer pob aelod staff

Mae angen y set ganlynol o eitemau data ar gyfer pob athro neu aelod o'r staff cymorth y mae angen data ar lefel unigol amdanynt yn y datganiadau **ysgol** a **chyflog, adnoddau dynol ac absenoldeb**. Dyma'r data sylfaenol sy'n ofynnol er mwyn cymharu dibenion rhwng y systemau data (hy adnoddau dynol, y gyflogres a system gwybodaeth reoli'r ysgol) a thros amser er mwyn dadansoddi'r patrymau a sicrhau cywirdeb a chysondeb yr wybodaeth a gyflwynir ac a gofnodir.

Mae'r set ddata sylfaenol ar gyfer y datganiadau **ysgol** a **chyflog, adnoddau dynol ac absenoldeb** er mwyn cymharu dibenion fel a ganlyn:

- Rhif Cyfeirio Athro (TRN), ac eithrio lle nad yw'n berthnasol i rolau penodol;
- cyfenw;
- enw cyntaf;
- enw(au) canol;
- dyddiad geni;
- rhyw; â
- Rhif yswiriant gwladol.

Bydd angen mwy o eitemau data ar gyfer aelodau staff y mae angen data lefel unigol amdanynt. Mae atodiad A yn rhoi manylion yr eitemau data sydd eu hangen ar gyfer gwahanol rolau'r staff.

## 6.5 Cofnodion lluosog ar gyfer un aelod staff

Efallai y bydd gan lawer o aelodau o weithlu'r ysgol fwy nag un contract ag ysgol benodol, neu efallai y byddant yn gweithio mewn nifer o ysgolion. Nid oes cyfyngiad ar nifer y contractau y gellir eu nodi ar yr un pryd fel rhan o'r CBGY.

Byddai mwy nag un cofnod yn cael ei nodi yn y CBGY ar gyfer aelod o weithlu'r ysgol yn yr achosion canlynol:

- lle mae gan aelod staff fwy nag un contract cyfredol, neu lle mae wedi ymroi i weithio yn yr ysgol o dan fwy nag un cytundeb gwasanaeth. Er enghraifft, mae ganddo un contract rhan-amser gyda'r ysgol fel athro a chontract rhan-amser arall fel cynorthwyydd addysgu;
- lle mae gan unigolyn gontractau gwahanol gyda mwy nag un ysgol. Dyma rai enghreifftiau: a) cynorthwyydd addysgu sy'n gweithio dau ddiwrnod mewn un ysgol a thri mewn un arall; b) athro cyflenwi sy'n gweithio diwrnod yr wythnos mewn un ysgol a dau mewn un arall ar sail contract. Yn y ddau achos, bydd pob ysgol yn gyfrifol am gofnod sy'n adlewyrchu'r amser y mae'r aelod staff yn ei dreulio yn yr ysgol honno;
- fel rheol, caiff gwybodaeth am aelod unigol o staff ei chyflwyno fel rhan o'r datganiad **ysgol**, a chaiff gwybodaeth am gyflog a chontractau ei chyflwyno fel rhan o'r datganiad **cyflog, adnoddau dynol ac absenoldeb**;
- lle mae aelod staff wedi dod i ddiwedd contract yn ystod y flwyddyn academaidd flaenorol a bod ganddo gontract newydd ar ddyddiad y cyfrifiad. Mewn achos felly, bydd angen cofnod **hanesyddol** a chofnod **ciplun** ar gyfer yr unigolyn.

## 6.6 Staff yn ymgymryd â rolau ar lefel uwch

Dylai manylion y contractau a gyflwynir fel rhan o'r datganiad **cyflog, adnoddau dynol ac absenoldeb** adlewyrchu swydd barhaol yr unigolyn ynghyd ag unrhyw lwfansau cyfrifoldeb y mae'n eu derbyn mewn perthynas â'r swydd uwch.

Lle bydd aelod o'r gweithlu yn ymgymryd â rôl ar lefel uwch o fewn yr un ysgol, er enghraifft dirprwy bennaeth yn ymgymryd â rôl pennaeth, dylid cofnodi'r rôl uwch ar gyfer yr unigolyn yn natganiad data'r **ysgol** (ee pennaeth dros dro).

# 7. Crynodeb o'r eitemau data i'w cyflwyno yn y datganiad ysgol

Mae'r adrannau isod yn dangos yr eitemau data sydd ym mhob modiwl. Mae hyperddolen i bob maes yn y tablau isod i wybodaeth fanylach am yr eitem ddata yn atodiad A.

## 7.1 Manylion yr arolwg

Math o ddata: **Ciplun**
I'w cynnwys mewn: Datganiad **cyflog, adnoddau dynol ac absenoldeb**

| Enw'r Maes | Hyd y Maes | Math o Faes | Tag Xml | Data Enghreifftiol |
|---|---|---|---|---|
| Math o arolwg/data | 6 | Alffaniwmerig | <Survey> | SWACHR |
| Cyfeirnod dyddiad yr arolwg | 10 | Dyddiad | <ReferenceDate> | 2025-11-04 |
| Y person sy'n cwblhau'r arolwg | 2 | Alffaniwmerig | <CompleterRole> | LA |
| Amser a dreuliwyd yn cwblhau'r arolwg | 3 | Alffaniwmerig | <Hours> | 005 |

## 7.2 Dynodyddion ysgol

Math o ddata: **Ciplun**
I'w cynnwys mewn: Datganiad c**yflog, adnoddau dynol ac absenoldeb**

| Enw'r Maes | Hyd y Maes | Math o Faes | Tag Xml | Data Enghreifftiol |
|---|---|---|---|---|
| Ffynhonnell | 1 | Alffaniwmerig | <Source> | S |
| Rhif yr AALl | 3 | Alffaniwmerig | <LEA> | 660 |
| Rhif yr ysgol* | 4 | Alffaniwmerig | <Estab> | 4099 |

*Rhaid cofnodi “9100” ar gyfer datganiad ALl a lle mae fynhonnell yn “L”.

## 7.3 Dynodyddion y gweithlu (Set ddata ofynnol)

Math o ddata: **Ciplun**
I'w cynnwys mewn: Datganiad **cyflog, adnoddau dynol ac absenoldeb**

Dylid diweddaru'r data yn y modiwl hwn yn rheolaidd wrth i bethau newid. Caiff data'r modiwl hwn eu casglu ar gyfer pob aelod staff sy'n bodloni'r meini prawf yn adran 6. Cofiwch fod hyn yn debygol o gynnwys rhai aelodau staff a adawodd yr ysgol yn ystod y flwyddyn academaidd cyn casglu'r data am gontractau neu absenoldeb.

| Enw'r Maes | Hyd y Maes | Math o Faes | Tag Xml | Data Enghreifftiol |
|---|---|---|---|---|
| Rhif cyfeirnod athro | 7 | Alffaniwmerig | <TeacherNumber> | 5963274 |
| Cyfenw | 35 | Alffaniwmerig | <Surname> | Jones |
| Enw cyntaf | 35 | Alffaniwmerig | <Forename> | Marc |
| Enw(au) canol | 35 | Alffaniwmerig | <MiddleNames> | Iwan Owen |
| Rhyw | 1 | Alffaniwmerig | <Sex> | M |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Dyddiad geni | 10 | Dyddiad | <DOB> | 1990-03-31 |
| Rhif yswiriant gwladol | 9 | Alffaniwmerig | <NINumber> | JP235491D |

## 7.4 Cyflog a chontract

Math o ddata: **Ciplun** a **hanesyddol**
I'w cynnwys mewn: Datganiad **cyflog, adnoddau dynol ac absenoldeb**

Dylid diweddaru'r data yn y modiwl hwn yn rheolaidd wrth i bethau newid. Mae'n bosibl y bydd gan unrhyw aelod staff a gyflogir:

a) un neu fwy o gontractau wedi'u cofnodi gyda'r un ysgol;
b) un neu fwy o gontractau wedi'u cofnodi gyda gwahanol ysgolion.

Rhaid cynnwys contractau/cytundebau gwasanaeth cyfredol (y rheini sy'n weithredol ar ddiwrnod y cyfrifiad) os yw'r contract wedi para am 28 diwrnod neu fwy, neu os yw'n barhaol, neu os yw dyddiad diwedd y contract 27 diwrnod neu fwy ar ôl dyddiad dechrau'r contract. Dylech sicrhau bod data am gontractau neu gytundebau gwasanaeth yn cael eu darparu am bob aelod staff sy'n gweithio ar sail reolaidd.

Rhaid cynnwys contractau nad ydynt yn weithredol erbyn diwrnod y cyfrifiad os daethant i ben yn ystod y flwyddyn academaidd flaenorol (1 Medi i 31 Awst). Ystyrir bod contractau sy'n dod i ben ar ddiwrnod y cyfrifiad yn weithredol at ddibenion y CBGY.

| Enw'r Maes | Hyd y Maes | Math o Faes | Tag Xml | Data Enghreifftiol |
|---|---|---|---|---|
| Math o gontract/cytundeb | 3 | Alffaniwmerig | <ContractType> | PRM |
| Dyddiad dechrau | 10 | Dyddiad | <ContractStart> | 2013-04-01 |
| Dyddiad diwedd | 10 | Dyddiad | <ContractEnd> | 2025-02-02 |
| Rheswm dros adael | 3 | Alffaniwmerig | <LeavingReason> | VOR |
| Swydd | 3 | Alffaniwmerig | <Post> | TAS |
| AALl | 3 | Alffaniwmerig | <LEA> | 660 |
| Rhif yr ysgol | 4 | Alffaniwmerig | <Estab> | 4099 |
| Cyfradd ddyddiol | 1 | Alffaniwmerig | <DailyRate> | N |
| Ystod cyflog | 2 | Alffaniwmerig | <PayRange> | TU |
| Lefel | 2 | Alffaniwmerig | <PaySpine> | 3 |
| Cyflog sylfaenol | 10 | Alffaniwmerig | <BasePay> | 35000.00 |
| Cyflog a warchodir | 1 | Boole | <SafeguardedSalary> | 0 |
| Math o daliad ychwanegol | 3 | Alffaniwmerig | <PaymentType> | TL3 |
| Swm taliad ychwanegol | 10 | Alffaniwmerig | <PaymentAmount> | 2500.00 |
| Dyddiad dechrau taliad ychwanegol | 10 | Dyddiad | <PayStartDate> | 2023-10-12 |
| Dyddiad diwedd taliad ychwanegol | 10 | Dyddiad | <PayEndDate> | 2025-01-31 |
| Oriau sy'n cael eu gweithio bob wythnos | 5 | Alffaniwmerig | <HoursPerWeek> | 32.5 |
| Oriau cyfwerth ag amser llawn bob wythnos | 5 | Alffaniwmerig | <FTEHours> | 37 |
| Cyfwerth ag amser llawn | 4 | Alffaniwmerig | <FTE> | 0.88 |
| Wythnosau bob blwyddyn | 2 | Alffaniwmerig | <WeeksPerYear> | 40 |

## 7.5 Absenoldebau

Math o ddata: **Hanesyddol**
I'w cynnwys mewn: Datganiad **cyflog, adnoddau dynol ac absenoldeb**

**Dim ond** ar gyfer **athrawon** a gyflogir yn uniongyrchol gan ysgolion y mae angen data absenoldeb. Dylid cofnodi pob eitem ddata yn y modiwl hwn wrth i gyfnodau absenoldeb godi yn ystod y flwyddyn, yn hytrach nag aros tan y cyfnod casglu data yn yr hydref.

Rhaid rhoi gwybodaeth am unrhyw weithgarwch neu amgylchiadau, ac eithrio hyfforddiant, sy'n mynd ag athro o'i ddyletswyddau arferol gyda'i gyflogwr arferol am hanner diwrnod neu fwy. At ddibenion y CBGY, ystyrir cyfnodau o'r fath i ffwrdd o ddyletswyddau arferol yn absenoldebau. Yn gyffredinol, nid oes angen cofnodi absenoldebau o lai na hanner diwrnod, ac eithrio'r canlynol:

- os nad yw sesiwn y bore a sesiwn y prynhawn yr un mor hir â'i gilydd, dylid ystyried pob sesiwn fel hanner diwrnod; neu
- os mai contract i weithio llai na hanner diwrnod sydd gan aelod staff, dylid cofnodi unrhyw absenoldebau, ac os mai absenoldeb salwch yw hwn, dylid cofnodi bod 0.5 diwrnod gwaith wedi'i golli.

Mae angen cofnodion absenoldeb ar gyfer unrhyw gyfnodau absenoldeb a ddechreuodd neu a ddaeth i ben yn ystod y flwyddyn academaidd flaenorol (o 1 Medi i 31 Awst). Os gadawodd unrhyw athrawon yr ysgol cyn diwrnod y Cyfrifiad, ond eu bod wedi cael cyfnodau absenoldeb yn ystod y flwyddyn academaidd flaenorol, yna bydd angen cyflwyno cofnodion absenoldeb ar eu cyfer. Os yw'r absenoldeb yn parhau pan gyflwynir datganiad y CBGY, rhaid cynnwys yr absenoldeb heb nodi dyddiad diwedd yr absenoldeb.

Dyma enghreifftiau o weithgareddau neu amgylchiadau na chânt eu cyfrif fel absenoldeb at ddibenion CBGY:

- cymryd rhan mewn gweithgareddau fel tripiau maes;
- diwrnodau nad ydynt wedi'u nodi fel diwrnodau gwaith yng nghontract yr unigolyn;
- amser CPA (cynllunio, paratoi ac asesu);
- diwrnodau HMS;
- amser digyswllt Athrawon Newydd Gymhwyso;
- hyfforddiant;
- gweithio mewn ysgol consortiwm neu ysgol gynradd/uwchradd gysylltiedig; â
- mynd i gyfarfodydd sy'n rhan o ddyletswyddau arferol unigolyn.

Cofiwch fod yna broses ddilysu sy'n gwirio bod o leiaf un cofnod absenoldeb yn y ffurflen ddata.

| Enw'r Maes | Hyd y Maes | Math o Faes | Tag Xml | Data Enghreifftiol |
|---|---|---|---|---|
| Diwrnod absenoldeb cyntaf | 10 | Dyddiad | <FirstDayOfAbsence> | 2024-12-01 |
| Diwrnod absenoldeb olaf | 10 | Dyddiad | <LastDayOfAbsence> | 2024-12-08 |
| Diwrnodau gwaith a gollwyd | 5 | Alffaniwmerig | <WorkingDaysLost> | 4.5 |
| Categori absenoldeb | 3 | Alffaniwmerig | <AbsenceCategory> | SIC |

## 8. Dilysu a chywiro gwallau

Yn dibynnu ar eich darparwr meddalwedd adnoddau dynol a/neu gyflogres, efallai y bydd yn darparu adroddiad manwl ar y gwallau dilysu a'r ymholiadau dilysu yn eich datganiad.

Mae 'gwall' yn golygu bod nod neu werth anghyfreithlon mewn eitem o ddata, neu anghysondeb rhesymegol rhwng eitemau o ddata neu rhwng gwahanol agweddau ar y datganiad.

Mae dau fath o 'ymholiad'. Gallant ymwneud ag elfen anarferol yn y data (er enghraifft, nid oes cofnod o rôl y pennaeth wedi'i gynnwys), sy'n awgrymu, ond nid yn profi, bod yna ddata anghywir neu fod data wedi'u hepgor; neu gellir eu defnyddio i dynnu sylw at feysydd lle mae'n ymddangos bod risg arbennig o uchel o hepgor data - er enghraifft nid oes cofnod cwricwlwm wedi'i gynnwys. Mae angen ymchwilio i ymholiad o unrhyw fath er mwyn gweld a oes diffyg cywirdeb neu a oes rhywbeth wedi'i hepgor, er y gellir dod i'r casgliad yn y pen draw bod y data, mewn gwirionedd, yn gywir.

Mae'n hanfodol eich bod yn cywiro cymaint o wallau ag sy'n bosibl cyn cyflwyno eich datganiad i Lywodraeth Cymru, ac yn ddelfrydol eu cywiro i gyd. Mae'n hanfodol hefyd eich bod yn ymchwilio i bob ymholiad ac yn diwygio data lle gwelir eu bod yn anghywir.

**Efallai y bydd datganiadau a fydd yn cynnwys gwallau pan fyddant yn cyrraedd Llywodraeth Cymru yn cael eu gwrthod ac yn gorfod cael eu hailgyflwyno ar ôl eu cywiro.**

Bydd gofyn i'r awdurdod lleol neu **ysgol sydd wedi penderfynu peidio â chael eu rheoli gan lywodraeth leol** gywiro'r gwallau yn eu system a lanlwytho'r datganiad diwygiedig drwy DEWi, y system trosglwyddo data ddiogel ar-lein.

**Ni fydd datganiadau'n cael eu haddasu gan Lywodraeth Cymru ar ôl eu cyflwyno drwy DEWi. Nid yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu defnyddio trothwy gwallau. Yn hytrach bydd yn gwerthuso pob datganiad yn unigol.**

# 9. Adroddiad cryno

Caiff yr adroddiad cryno ei greu'n awtomatig gan feddalwedd DEWi. Ei ddiben yw galluogi'r staff sy'n paratoi'r datganiad, a'r person sy'n ei awdurdodi, i asesu pa mor gywir a chyflawn y mae'n debygol o fod o ystyried bod ffeil y datganiad ei hun yn rhy fawr i allu edrych arni yn ei chyfanrwydd yn hawdd.

Dylid gwirio'r crynodeb yn fanwl, gan dalu sylw arbennig i'r rhannau hynny sydd efallai yn dynodi nad oedd rhywfaint o ddata gweithlu'r ysgol ar lefel unigol wedi'u cynnwys yn eich system cyn creu'r datganiad, er enghraifft:

- nifer y staff yn ôl eu swydd (cyfrif pennau a staff cyfwerth ag amser llawn);
- nifer y staff yn ôl math o gontract;
- nifer y staff yn ôlystod cyflog;
- nifer y staff sy'n derbyn taliadau ychwanegol; â
- y nifer a adawodd yn ôl eu swydd a'u rheswm dros adael.

Yn olaf, mae'r crynodeb yn dangos cyfanswm y gwallau a'r ymholiadau yn y datganiad na chawsant eu datrys, gan roi rhyw syniad ynghylch a yw'r datganiad yn debygol o gael ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru.

Sylwer bod crynodeb yr ysgol yn amrywio yn ôl y math o ysgol ac felly ni fydd pob un o'r enghreifftiau a restrir yn berthnasol i'ch ysgol chi.

# 10. Creu ffeil ddata i'w chyflwyno

## 10.1 Cael gafael ar ddata XML

XML fydd fformat yr estyniad ffeil.

Bydd enw'r ffeil yn cynnwys yr elfennau canlynol:

(a) dynodydd tarddiad (7 digid)[3]
(b) math o arolwg (3 nod)[4]
(c) dynodydd pen y daith (7 nod)[5]
(d) rhif cyfres (3 digid)[6]

Dylid gwahanu'r elfennau â nodau tanlinell ("_").

Bydd enw'r ffeil yn gwahaniaethu ychydig yn ôl elfennau'r data a ffynhonnell y ffeil.

Bydd yn ofynnol i **ysgolion sydd wedi penderfynu peidio â bod yn rhan o gytundebau lefel gwasanaeth eu hawdurdod lleol** at ddibenion adnoddau dynol a'r gyflogres ddychwelyd ffeiliau gwahanol ar gyfer modiwlau data eu hysgol a modiwlau awdurdodau lleol.

a) Dyma enghraifft o ffeil **Cyfrifiad Blynyddol o'r Gweithlu Ysgolion** ar gyfer datganiad **cyflog, adnoddau dynol ac absenoldeb** ar gyfer y modiwlau data a gwblheir gan awdurdodau lleol:

**6609100_SWC_660LA25_001.XML**

b) Dyma enghraifft o ffeil **Cyfrifiad Blynyddol o'r Gweithlu Ysgolion** ar gyfer datganiad **cyflog, adnoddau dynol ac absenoldeb** gan **ysgol sydd wedi penderfynu peidio â bod yn rhan o gytundebau lefel gwasanaeth awdurdod lleol** o ran adnoddau dynol/y gyflogres ar gyfer y modiwlau data a gwblheir gan **ysgolion sydd wedi penderfynu peidio â bod yn rhan o gytundebau lefel gwasanaeth**:

**6602050_SWC_660LA25_001.XML**

---

[3] Caiff y dynodydd tarddiad ei lunio ar sail y rhif AALl 3 digid a'r rhif sefydliad 4 digid, gan greu'r rhif ysgol/sefydliad 7 digid. Ar gyfer awdurdodau lleol, "0000" yw rhif y sefydliad.
[4] Ar gyfer data'r CBGY, nodir "SWC" yn enw'r ffeil.
[5] Yn achos trosglwyddo data o ysgolion i awdurdodau lleol fel rhan o ddatganiad **ysgol**, caiff dynodydd pen y daith ei lunio ar sail rhif AALl yr awdurdod lleol sy'n derbyn y data, yna "SC" ac yna "25" i ddynodi dau ddigid olaf y flwyddyn academaidd. Yn achos trosglwyddo data o awdurdodau lleol i Lywodraeth Cymru (enghreifftiau (b) ac (c) uchod) ar gyfer datganiad **cyflog, adnoddau dynol ac absenoldeb**, neu o **ysgolion sydd wedi penderfynu peidio â chael eu rheoli gan lywodraeth leol**, caiff dynodydd pen y daith ei lunio ar sail rhif AALl yr awdurdod lleol/**ysgol sydd wedi penderfynu peidio â chael ei rheoli gan lywodraeth leol** sy'n cyflwyno'r data, yna "LA" ac yna "25".
[6] Y rhif cyfres yw'r fersiwn 3 digid o'r ffeil. "001" yw'r ffeil gyntaf yn y gyfres, "002" yw'r ail ac ati. **Rhaid** i bob ffeil newydd sy'n cael ei chyflwyno fod â rhif cyfres uwch na'r fersiynau sydd eisoes wedi'u lanlwytho.

lle mae '25' yn dynodi dau ddigid olaf y flwyddyn, ac felly yn briodol i'r cyfrifiad ysgol blynyddol, dyddiedig 04/11/2025.

Cyfanswm nodau enw'r ffeil yw 27. Yn achos ffeiliau sydd heb eu hawdurdodi gan yr ysgol eto, dylid newid yr estyniad ffeil o XML i UNA.

## 11. Cyflwyno'r datganiad drwy DEWi

Unwaith bydd datganiad **cyflog, adnoddau dynol ac absenoldeb** y CBGY wedi'i llenwi, dylid ei anfon, drwy DEWi, i Lywodraeth Cymru.

Rhaid cyflwyno eich datganiad CBGY i Lywodraeth Cymru erbyn **17 Rhagfyr 2025**.

## 12. Rhagor o wybodaeth

Os oes angen mwy o gyngor arnoch ar gwblhau unrhyw ran o ddatganiad y CBGY, cysylltwch â Llywodraeth Cymru drwy'r manylion ar glawr mewnol y ddogfen hon.

## Atodiad A: Setiau codau'r datganiad cyflog, adnoddau dynol ac absenoldeb

Pwrpas yr atodiad hwn yw rhoi gwybodaeth lawn, hawdd ei deall, am bob un o feysydd data'r CBGY.

Yn yr atodiad hwn, mae pob maes sydd wedi'i nodi yng nghasgliad CBGY ar gyfer Tachwedd 2025 wedi'i restru, ac mae'r manylion am y maes hwnnw i'w cael mewn fformat safonol. Rhoddir isod esboniad o'r hyn sydd wedi'i gynnwys ym mhob rhan o'r templed maes.

**Modiwl data**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Enw'r maes | **Enw'r maes fel y'i defnyddir yn y ffeil XML a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru gan eich meddalwedd** | Hyd y maes | **Hyd y maes yn ôl nifer y nodau** |
| Math o faes | **Math o faes [Alffaniwmerig, Niwmerig, Boole neu Ddyddiad]** | Gorfodol ar gyfer | **Pa fathau o ysgolion sy'n gorfod llenwi'r adran hon?** |

| | |
|---|---|
| Rheswm | Gwybodaeth ynghylch pam fod angen y data hyn a sut caiff y data eu defnyddio. |
| Cofnodion dilys | Rhestr o'r gwerthoedd, a disgrifiadau ohonynt, y gellir eu dychwelyd o fewn y maes data.<br><br>**Sylwer**: dyma'r gwerthoedd sydd eu hangen yn y ffeil ddata y mae eich meddalwedd yn ei chyflwyno a gallent fod yn wahanol i'r modd y mae'r data'n cael eu cyflwyno i chi gan eich meddalwedd. |
| Nodiadau | Data enghreifftiol: **Enghraifft**<br><br>Unrhyw nodiadau amrywiol, a manylion pellach, yn ogystal ag esiampl o ddata dilys y gellir eu cyflwyno yn y maes a lle y gellir dod o hyd iddynt. |

## Manylion yr arolwg

| | | | |
|---|---|---|---|
| Enw'r maes | **Math o arolwg** | Hyd y maes | **5** |
| Math o faes | **Alffaniwmerig** | Gorfodol ar gyfer | **Pob datganiad** |

| | | |
|---|---|---|
| Rheswm | I'w gwneud yn glir pa arolwg sy'n cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru | |
| Cofnodion dilys | **PLASC** | Cyfrifiad ysgolion blynyddol ar lefel disgyblion |
| | **P16** | Casgliad data ôl-16 |
| | **NDC** | Casgliad data cenedlaethol |
| | **ATS** | Presenoldeb: Ysgolion uwchradd |
| | **ATP** | Presenoldeb: Ysgolion cynradd |
| | **EOTAS** | Cyfrifiad dysgwyr sy'n cael eu haddysgu mewn lleoliad heblaw yn y cartref |
| | **SWAC** | Cyfrifiad blynyddol o'r gweithlu ysgolion – datganiad **ysgol** |
| | **SWACHR** | Cyfrifiad blynyddol o'r gweithlu ysgolion – datganiad **cyflog, adnoddau dynol ac absenoldeb** |

Nodiadau

Data enghreifftiol: **SWACHR**

Mae'r eitem ddata hon yn nodi i ba arolwg y mae'r datganiad yn perthyn. Ar gyfer y datganiad **cyflog, adnoddau dynol ac absenoldeb**, dylid nodi **SWACHR.**

Dylai system adnoddau dynol a/neu gyflogres yr awdurdod lleol a/neu system gwybodaeth reoli'r ysgol nodi **SWACHR** yn awtomatig yn y maes hwn os yw'r system wedi'i datblygu i allu gwneud hyn.

## Manylion yr arolwg

| | | | |
|---|---|---|---|
| Enw’r maes | **Cyfeirnod dyddiad yr arolwg** | Hyd y maes | **10** |
| Math o faes | **Dyddiad** | Gorfodol ar gyfer | **Pob datganiad** |

| | |
|---|---|
| Rheswm | I nodi'r dyddiad pan gwblhawyd yr arolwg |
| Cofnodion dilys | Dyddiad cyflwyno'r arolwg i Lywodraeth Cymru |
| Nodiadau | Data enghreifftiol: **2025-11-04**<br><br>Y dyddiad pan dynnwyd y data ar fformat **CCBB-MM-DD**.<br><br>Dylid nodi **2025-11-04** (4 Tachwedd 2025). Dylai system adnoddau dynol a/neu gyflogres awdurdod lleol a/neu system ysgol sydd wedi'i datblygu i ddod o hyd i ddata yn awtomatig nodi'r dyddiad hwn yn awtomatig. |

## Manylion yr arolwg

| | | | |
|---|---|---|---|
| Enw’r maes | **Y person sy’n cwblhau’r arolwg** | Hyd y maes | **2** |
| Math o faes | **Alffaniwmerig** | Gorfodol ar gyfer | **Pob datganiad** |

| | |
|---|---|
| Rheswm | I nodi pwy gwblhaodd yr arolwg |
| Cofnodion dilys | **HT** Pennaeth<br>**AC** Pennaeth dros dro<br>**DH** Dirprwy bennaeth<br>**AS** Pennaeth cynorthwyol<br>**QT** Athro cymwysedig arall<br>**AO** Aelod staff gweinyddol arall<br>**BM** Rheolwr busnes ysgol neu swydd gyfatebol<br>**ON** Arall<br>**LA** Aelod staff awdurdod lleol |
| Nodiadau | Data enghreifftiol: **LA**<br><br>Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i leihau effaith casgliadau data ar ysgolion ac awdurdodau lleol. Caiff gwybodaeth am bwy gwblhaodd yr arolwg a'r amser a gymerwyd i'w gwblhau gan bob grŵp gwahanol o staff ei defnyddio i adolygu'r arolwg yn rheolaidd i sicrhau bod y baich ar ysgolion ac awdurdodau lleol yn cael ei gadw i'r lefel isaf bosibl er mwyn cynnal ansawdd eu hallbynnau. Defnyddir yr wybodaeth hon i roi adroddiad i'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) fel rhan o Restr Arolygon Ystadegol y Llywodraeth Ar-lein. |

## Manylion yr arolwg

| | | | |
|---|---|---|---|
| Enw'r maes | **Amser a dreuliwyd yn cwblhau'r arolwg** | Hyd y maes | **3** |
| Math o faes | **Alffaniwmerig** | Gorfodol ar gyfer | **Pob datganiad** |

| | |
|---|---|
| Rheswm | I nodi sawl awr a dreuliwyd gan y gwahanol grwpiau o staff a gyfrannodd yn cwblhau'r arolwg. |
| Cofnodion dilys | Nifer dilys yr oriau |
| Nodiadau | Data enghreifftiol: **005**<br><br>Y grwpiau dilys o staff fel y rhestrir uchod.<br><br>O dan bob pennawd priodol, nodwch gyfanswm yr amser a dreuliwyd yn cyfrannu at ddatganiad y CBGY, gan ei dalgrynnu i'r awr gyfan agosaf. |

## Dynodyddion ysgol

| | | | |
|---|---|---|---|
| Enw’r maes | **Ffynhonnell** | Hyd y maes | **1** |
| Math o faes | **Alffaniwmerig** | Gorfodol ar gyfer | **Pob datganiad** |

| | |
|---|---|
| Rheswm | Nodi p'un a gyflwynwyd y datganiad gan awdurdod lleol neu ysgol sydd wedi penderfynu peidio â chael ei rheoli gan lywodraeth leol. |
| Cofnodion dilys | **L** Awdurdod lleol<br>**S** **Ysgol sydd wedi penderfynu peidio â chael ei rheoli gan lywodraeth leol** |
| Nodiadau | Data enghreifftiol: **S** |

## Dynodyddion ysgol

| | | | |
|---|---|---|---|
| Enw'r maes | **Rhif yr AALI** | Hyd y maes | **3** |
| Math o faes | **Alffaniwmerig** | Gorfodol ar gyfer | **Pob datganiad** |

| | |
|---|---|
| Rheswm | Nodi pa awdurdod lleol y mae'r datganiad yn gysylltiedig ag ef. |
| Cofnodion dilys | Yn cynnwys tri digid, yn yr ystod a ganlyn:<br><br>**660** Ynys Môn<br>**661** Gwynedd<br>**662** Conwy<br>**663** Sir Ddinbych<br>**664** Sir y Fflint<br>**665** Wrecsam<br>**666** Powys<br>**667** Ceredigion<br>**668** Sir Benfro<br>**669** Sir Gaerfyrddin<br>**670** Abertawe<br>**671** Castell-nedd Port Talbot<br>**672** Pen-y-bont ar Ogwr<br>**673** Bro Morgannwg<br>**674** Rhondda Cynon Taf<br>**675** Merthyr Tudful<br>**676** Caerffili<br>**677** Blaenau Gwent<br>**678** Torfaen<br>**679** Sir Fynwy<br>**680** Casnewydd<br>**681** Caerdydd |
| Nodiadau | Data enghreifftiol: **660** |

## Dynodyddion ysgol

| | | | |
|---|---|---|---|
| Enw'r maes | **Rhif yr ysgol** | Hyd y maes | **4** |
| Math o faes | **Alffaniwmerig** | Gorfodol ar gyfer | **Datganiadau gan ysgol yn unig** |

| | |
|---|---|
| Rheswm | Nodi'r ysgol sy'n dychwelyd y datganiad. |
| Cofnodion dilys | Yn cynnwys pedwar digid, yn yr ystodau a ganlyn: |

| | |
|---|---|
| **0000** | Awdurdodau lleol yn unig |
| **1000 – 1099** | Ysgolion meithrin |
| **1100 – 1199** | Unedau Cyfeirio Disgyblion |
| **1900 – 1999** | EOTAS (defnyddiwyd cyn 2010 - gweler 9000) |
| **2000 – 2999** | Ysgolion cynradd cymunedol |
| **3000 – 3299** | Ysgolion cynradd gwirfoddol a reolir |
| **3300 – 3399** | Ysgolion cynradd gwirfoddol a gynorthwyir |
| **4000 – 4499** | Ysgolion uwchradd cymunedol |
| **4500 – 4599** | Ysgolion uwchradd gwirfoddol a reolir |
| **4600 – 4699** | Ysgolion uwchradd gwirfoddol a gynorthwyir |
| **5200 – 5299** | Ysgolion cynradd sefydledig |
| **5400 – 5499** | Ysgolion uwchradd sefydledig |
| **5500 – 5699** | Ysgolion canol cymunedol |
| **5700 – 5799** | Ysgolion canol sefydledig |
| **5800 – 5899** | Ysgolion canol gwirfoddol a reolir |
| **5900 – 5999** | Ysgolion canol gwirfoddol a gynorthwyir |
| **6000 – 6999** | Ysgolion annibynnol |
| **7000 – 7999** | Ysgolion arbennig |
| **9000** | EOTAS |
| **9100** | Ar gyfer awdurdodau lleol sy'n cwblhau datganiad data **cyflog, adnoddau dynol ac absenoldeb** CBGY yn unig. |

Nodiadau

Data enghreifftiol: **4099**

Yn cynnwys pedwar digid, yn yr ystodau priodol a nodir uchod. Mae'n hanfodol bod rhif yr AALl a rhif yr ysgol yn gywir ac wedi'u diweddaru. Os bydd unrhyw gamgymeriad (yn cynnwys rhoi hen werth ar y naill god neu'r llall) mae'n debygol y bydd Llywodraeth Cymru yn gwrthod derbyn eich datganiad.

Rhaid bod yn "9100" ar gyfer datganiad awdurdod lleol.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Enw’r maes | **Rhif cyfeirnod athro** | Hyd y maes | **7** |
| Math o faes | **Alffaniwmerig** | Gorfodol ar gyfer | **Yr holl staff addysgu cymwysedig** |
| Rheswm | Cofnodi rhif cyfeirnod unigryw'r athro (TRN) ar gyfer pob aelod o staff sydd â rhif. | | |
| Cofnodion dilys | Y rhif TRN dilys 7 nod ar gyfer yr aelod o staff. | | |
| Nodiadau | Data enghreifftiol: **5963274**<br><br>Dyma rif TRN unigryw, sydd hefyd yn cael ei alw'n rhif EWC (Cyngor y Gweithlu Addysg). Ar gyfer yr aelodau o staff sydd â rhif TRN, mae'n ddynodydd unigryw. Mae'n **rhaid** i bob athro cymwysedig gael rhif TRN.<br><br>Caiff ei roi i:<br><br>• athrawon sydd â Statws Athro Cymwysedig (SAC);<br>• pobl sy'n dechrau eu blwyddyn olaf neu eu hunig flwyddyn o hyfforddiant athrawon;<br>• pobl sy'n gweithio tuag at SAC drwy gynlluniau hyfforddi ar sail cyflogaeth;<br>• y rheini sydd heb SAC ond sy'n rhan o Gynllun Pensiwn Athrawon.<br><br>Rhif 7 digid fydd y rhif TRN. Sicrhewch mai'r rhif saith digid cywir yn unig sy'n cael ei roi.<br><br>Os oes gen yr aelod o staff Rif Athro o Gymru neu Loegr, dylid nodi'r rhif hwn. **Ni** ddylid nodi'r canlynol:<br><br>• Rhif Athro o'r Alban;<br>• Rhif Athro o Ogledd Iwerddon;<br>• rhifau athro o wledydd tramor; a<br>• rhifau ffug fel 0000001, rhifau dros dro neu 'TBC'.<br><br>Os na ellir darparu rhif o Gymru neu Loegr, dylid gadael y maes yn wag.<br><br>Rhaid dileu nodau fel '/' ac **ni** ddylid eu cynnwys yn y ffeil XML. Dylid defnyddio nodau rhifiadol yn unig. Ni ddylid cynnwys unrhyw nodau arbennig, bylchau na nodau alffa. Dylai unrhyw werthoedd anrhifiadol gael eu dileu'n awtomatig | | | |

gan feddalwedd eich system gwybodaeth reoli wrth dynnu'r data.

Os nad oes rhif wedi'i nodi ar gyfer unigolyn mewn rôl addysgu, bydd gwall yn cael ei greu yn DEWi, a bydd angen ysgrifennu nodyn yn erbyn yr ymholiad i egluro pam na chyflwynwyd rhif TRN.

Rhaid i ysgolion wneud pob ymdrech i sicrhau cywirdeb y rhifau TRN a ddarperir. Os na ellir cael rhif cywir, dylid cadw'r eitem ddata'n wag. Bydd y rhif TRN yn cael ei ddefnyddio i gysylltu data o'r datganiadau **ysgol**, a **chyflog, adnoddau dynol ac absenoldeb**.

Os yw athro yn gweithio mewn sawl ysgol, **rhaid** i bob ysgol nodi'r rhif TRN; gweler adran 6 ar gofnodion lluosog ar gyfer un aelod o staff.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Enw'r maes | **Cyfenw** | Hyd y maes | **35** |
| Math o faes | **Alffaniwmerig** | Gorfodol ar gyfer | **Y gweithlu cyfan** |

| | |
|---|---|
| Rheswm | Adnabod y cyfenw cywir ar gyfer pob aelod o staff er mwyn cadw cofnodion cyfoes. |
| Cofnodion dilys | Y cyfenw llawn y mae'r ysgol yn credu ei fod yn gyfenw i'r aelod staff. |
| Nodiadau | Data enghreifftiol: **Jones**<br><br>**Rhaid** cofnodi'r cyfenw llawn.<br><br>Dylai cyflogwyr fod wedi dilysu enwau eu staff fel rhan o'r gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Os mai trydydd parti sy'n darparu staff, dylai eu hunaniaeth fod wedi'i gwirio. **Ni** ddylid cynnwys enwau cyntaf nac enwau canol yn y maes hwn. |

## Dynodyddion y gweithlu

| | | | |
|---|---|---|---|
| Enw’r maes | **Enw cyntaf** | Hyd y maes | **35** |
| Math o faes | **Alffaniwmerig** | Gorfodol ar gyfer | **Y gweithlu cyfan** |

| | |
|---|---|
| Rheswm | I adnabod enw cyntaf pob aelod o staff er mwyn cadw cofnodion cyfoes. |
| Cofnodion dilys | Enw cyntaf llawn, heb ei dalfyrru a heb nodi fersiynau eraill. |
| Nodiadau | Data enghreifftiol: **Marc**<br><br>Rhaid nodi'r enw cyntaf llawn, heb eu talfyrru a heb nodi fersiynau eraill. Gall cyflenwyr a defnyddwyr ddefnyddio maes 'a adnabyddir fel' yn lleol, ond nid yw'r adran yn casglu'r wybodaeth hon gan fod safoni ar sail yr enw cyfreithiol yn rhoi sylfaen gadarn ar gyfer paru data. **Peidiwch** â chynnwys enwau canol na chyfenwau yn y maes hwn. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Enw'r maes | **Enw(au) canol** | Hyd y maes | **35** |
| Math o faes | **Alffaniwmerig** | Gorfodol ar gyfer | **Y gweithlu cyfan** |

| | |
|---|---|
| Rheswm | I adnabod yr enw(au) canol cywir ar gyfer pob aelod o staff er mwyn cadw cofnodion cyfoes. |
| Cofnodion dilys | Enw(au) canol llawn, heb dalfyrru a heb nodi fersiynau eraill. |
| Nodiadau | Data enghreifftiol: **Iwan Owen**<br><br>Enw(au) canol llawn yr aelod o staff.<br><br>**Ni** ddylid talfyrru'r enw(au) canol na nodi fersiynau eraill. Gellir nodi mwy nag un enw canol ar gyfer pob aelod o staff. **Peidiwch** â chynnwys enwau cyntaf na chyfenwau yn y maes hwn. |

## Dynodyddion y gweithlu

| | | | |
|---|---|---|---|
| Enw’r maes | **Rhyw** | Hyd y maes | **1** |
| Math o faes | **Alffaniwmerig** | Gorfodol ar gyfer | **Y gweithlu cyfan** |

| | |
|---|---|
| Rheswm | I adnabod y rhyw cywir ar gyfer pob aelod o'r gweithlu er mwyn cadw cofnodion cyfoes. |
| Cofnodion dilys | **M** Gwryw<br>**F** Benyw |
| Nodiadau | Data enghreifftiol: **M**<br><br>I nodi rhyw person yn unol â’r gyfraith, fel y defnyddir ar dystysgrif geni neu dystysgrif cydnabod rhywedd (ar gyfer unigolion dros 18 oed ac sydd wedi byw yn eu rhywedd caffaeledig am fwy na dwy flynedd), gan ddefnyddio M neu F fel yr opsiynau dilys. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Enw'r maes | **Dyddiad geni** | Hyd y maes | **10** |
| Math o faes | **Dyddiad** | Gorfodol ar gyfer | **Y gweithlu cyfan** |

| | |
|---|---|
| Rheswm | I adnabod y dyddiad geni cywir ar gyfer pob aelod o staff er mwyn cadw cofnodion cyfoes. |
| Cofnodion dilys | Dyddiad ar ffurf **CCBB-MM-DD**. |
| Nodiadau | Data enghreifftiol: **1990-03-31**<br><br>Dyma ddyddiad geni'r aelod staff gan ddefnyddio'r fformat **CCBB-MM-DD** (er enghraifft, ar gyfer 31 Mawrth 1990 = 1990-03-31). **Rhaid** i ysgolion nodi'r dyddiad geni cywir ar gyfer yr aelod staff. Defnyddir dyddiadau geni i baru data'r cyfrifiad o'r systemau gwybodaeth gwahanol (h.y. system IMS yr ysgol a systemau cyflogres ac Adnoddau Dynol) ac o flynyddoedd gwahanol, ac felly mae'n bwysig bod y data hyn yn gywir ym mhob system. |

## Dynodyddion y gweithlu

| | | | |
|---|---|---|---|
| Enw'r maes | **Rhif yswiriant gwladol** | Hyd y maes | **9** |
| Math o faes | **Alffaniwmerig** | Gorfodol ar gyfer | **Y gweithlu cyfan** |

| | |
|---|---|
| Rheswm | Cofnodi rhifau yswiriant gwladol y gweithlu. |
| Cofnodion dilys | Y rhif yswiriant gwladol 9 nod dilys ar gyfer yr aelod staff.<br><br>Rhaid i'r rhif yswiriant gwladol bodloni'r gofynion canlynol:<br><br>• rhaid i'r 2 nod cyntaf fod yn lythyrennau;<br>• rhaid i nodau 3 i 8 fod yn rhifol;<br>• rhaid i'r nod olaf fod yn A, B, C, D neu bwlch;<br>• ni all y nod cyntaf fod yn D, F, I, Q neu U; a<br>• ni all yr ail nod fod yn D, F, I, O, Q, U neu V. |
| Nodiadau | Data enghreifftiol: **JP235491D**<br><br>Rhaid nodi rhifau yswiriant gwladol ar gyfer pob aelod o staff yn y datganiad. Dylai ysgolion wneud pob ymdrech i sicrhau y gellir darparu rhif yswiriant gwladol ar gyfer pob aelod o staff.<br><br>Defnyddir y maes hwn at ddibenion paru ac ar gyfer olrhain unigolion dros amser er mwyn gallu cynhyrchu ystadegau ar hyd gwasanaeth, trosiant staff etc. Bydd gadael y maes yn wag yn creu gwall a bydd angen ychwanegu nodyn i'r datganiad i egluro pam na ddarparwyd rhif yswiriant gwladol. Ni cheir nodi rhifau dros dro.<br><br>Os yw athro yn gweithio mewn sawl ysgol, rhaid i bob ysgol nodi'r eitem hon. Gweler adran 6.5 ar gofnodion lluosog ar gyfer gyfer un aelod o staff. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Enw'r maes | **Math o gontract/cytundeb** | Hyd y maes | **3** |
| Math o faes | **Alffaniwmerig** | Gorfodol ar gyfer | **Y gweithlu cyfan** |

| | |
|---|---|
| Rheswm | I nodi'r math o gontract a/neu gytundeb sydd gan yr aelod o'r gweithlu. |
| Cofnodion dilys | **PRM** Parhaol<br>**FXT** Cyfnod penodol<br>**TMP** Dros dro<br>**SLA** Cytundeb lefel gwasanaeth gyda'r awdurdod lleol |
| Nodiadau | Data enghreifftiol: **PRM**<br><br>Os oes gan aelod o staff gontract gyda'r awdurdod lleol neu ysgol, **rhaid** dewis **PRM**, **FXT** neu **TMP**.<br><br>Rhaid defnyddio **FXT** ar gyfer contractau o hyd cytunedig sydd â dyddiad diwedd penodol. **Rhaid** i gontractau cyfnod penodol fod â dyddiad diwedd.<br><br>**Rhaid** defnyddio **TMP** ar gyfer contractau nad ydynt yn rhai parhaol, er enghraifft contractau cyflenwi, sydd heb ddyddiad diwedd.<br><br>Os caiff athro mewn ysgol ei ddarparu gan awdurdod lleol lle mae'r awdurdod yn gweithredu fel asiantaeth gyflenwi, dylid defnyddio **SLA**.<br><br>**Rhaid** cofnodi'r eitem ddata hon ar gyfer pob aelod o staff sydd â chontract neu gytundeb lefel gwasanaeth. Dylai staff sy'n cyflenwi drwy asiantaeth gael eu cynnwys yn y data cyfanredol a gofnodir yn y modiwl *cyflenwi* yn y datganiad **ysgol**. |

## Cyflog a chontract

| | | | |
|---|---|---|---|
| Enw’r maes | **Dyddiad dechrau** | Hyd y maes | **10** |
| Math o faes | **Dyddiad** | Gorfodol ar gyfer | **Y gweithlu cyfan** |
| Rheswm | **Rhaid** cofnodi'r dyddiad y dechreuodd y contract. | | |
| Cofnodion dilys | Dyddiad ar ffurf **CCBB-MM-DD**. | | |
| Nodiadau | Data enghreifftiol: **2013-04-01** | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Enw'r maes | **Dyddiad diwedd** | Hyd y maes | **10** |
| Math o faes | **Dyddiad** | Gorfodol ar gyfer | **Y gweithlu cyfan** |

| | |
|---|---|
| Rheswm | **Rhaid** nodi'r dyddiad diwedd y contract, os yn berthnasol. |
| Cofnodion dilys | Dyddiad ar ffurf **CCBB-MM-DD**. |

| | |
|---|---|
| Nodiadau | Data enghreifftiol: **2025-02-02**<br><br>Bydd y dyddiad diwedd y contract neu'r cytundeb lefel gwasanaeth yn cael eu gofnodi fel arfer ar ôl i'r contract neu'r cytundeb ddod i ben. Fodd bynnag, ar gyfer contractau cyfnod penodol, a ddynodir gan y cod **FXT**, **rhaid** nodi'r dyddiad diwedd pan gaiff y contract ei sefydlu. |

## Cyflog a chontract

| | | | |
|---|---|---|---|
| Enw'r maes | **Rheswm dros adael** | Hyd y maes | **3** |
| Math o faes | **Alffaniwmerig** | Gorfodol ar gyfer | **Y gweithlu cyfan** |

Rheswm

I nodi'r rheswm pam y gwnaeth aelod o staff derfynu ei gyfnod o gyflogaeth yn yr ysgol neu'r awdurdod lleol.

Cofnodion dilys

| | |
|---|---|
| **VOR** | Diswyddiad gwirfoddol |
| **COR** | Diswyddiad gorfodol |
| **OTT** | Wedi gadael ar gyfer swydd addysgu arall |
| **OTE** | Ddim yn addysgu bellach ond wedi aros yn y byd addysg |
| **LET** | Wedi gadael y proffesiwn addysgu |
| **OTR** | Arall |
| **DCS** | Wedi marw |
| **REN** | Wedi ymddeol (oedran arferol) |
| **REI** | Wedi ymddeol (salwch) |
| **REP** | Wedi ymddeol (yn gynnar) |
| **NAC** | Amherthnasol (newid contract) |
| **NOK** | Anhysbys |
| **DIS** | Gwahardd o'r gwaith |
| **FAM** | Mamolaeth, tadolaeth neu seibiant am resymau teuluol |
| **SRO** | Ad-drefnu ysgolion |

Nodiadau

Data enghreifftiol: **VOR**

Dylid casglu'r wybodaeth hon pan fydd aelod o'r gweithlu wedi rhoi gwybod ei fod eisiau terfynu ei gontract neu gytundeb lefel gwasanaeth. Os nad yw'r wybodaeth eisoes ar gael, dylid gwneud trefniadau drwy'r gweithdrefnau arferol, megis cyfweliad ymadael, i gael yr wybodaeth hon. Gall fod achosion lle nad oes modd cael yr wybodaeth hon, a darperir ar gyfer hyn yn y set codau: dylid dewis 'Anhysbys'. Os bydd contract yn newid o fewn yr un ysgol, er enghraifft ar gyfer dyrchafiad o ddirprwy bennaeth i bennaeth, dylid dewis 'Amherthnasol' o'r set codau.

**Rhaid** nodi'r rheswm dros adael ar gyfer pob athro a chynorthwywyr addysgu dan gontract a adawodd yn ystod y flwyddyn academaidd flaenorol. Nid oes angen darparu'r wybodaeth hon ar gyfer staff eraill, megis staff asiantaeth.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Enw'r maes | **Swydd** | Hyd y maes | **3** |
| Math o faes | **Alffaniwmerig** | Gorfodol ar gyfer | **Pob unigolyn** |

| | |
|---|---|
| Rheswm | I nodi, ar lefel uchel, pa gategori y mae aelod o staff yn perthyn iddo. |
| Cofnodion dilys | **EXH** Pennaeth gweithredol<br>**HDT** Pennaeth<br>**ACT** Pennaeth dros dro<br>**DHT** Dirprwy bennaeth<br>**AHT** Pennaeth cynorthwyol<br>**TCM** Athro dosbarth (prif ystod cyflog)<br>**TCU** Athro dosbarth (ystod cyflog uwch)<br>**LDP** Ymarferydd arweiniol<br>**UQT** Athro heb gymhwyso<br>**TAS** Cynorthwyydd addysgu<br>**HTA** Cynorthwyydd addysgu lefel uwch<br>**SUP** Staff cymorth<br>**EDP** Seicolegydd addysg<br>**PPT** Athro peripatetig<br>**OTH** Staff eraill ysgolion o fewn awdurdod lleol<br>**SPL** Athro cyflenwi a gyflogir yn ganolog gan awdurdod lleol |
| Nodiadau | Data enghreifftiol: **TAS**<br><br>Ar gyfer athrawon mewn swyddi nad ydynt wedi'u cynnwys yn y set codau uchod, rhaid dewis y disgrifydd sy'n adlewyrchu orau lefel eu swydd.<br><br>Dylid defnyddio swydd pennaeth gweithredol ar gyfer pennaeth sy'n arwain dwy neu fwy o ysgolion yn uniongyrchol mewn ffederasiwn neu drefniant partneriaeth arall.<br><br>Dylid defnyddio swydd cynorthwyydd addysgu neu gynorthwyydd addysgu lefel uwch ar gyfer staff cymorth sy'n gweithio yn y dosbarth i helpu gyda'r dysgu ac i helpu disgyblion. Dylid cynnwys staff cymorth anghenion addysgol arbennig, staff cymorth disgyblion sydd o gefndir lleiafrif ethnig a chynorthwywyr dwyieithog o dan staff cymorth.<br><br>Mewn amgylchiadau lle mae rhywun mewn swydd dros dro yn yr un ysgol, er enghraifft dirprwy bennaeth yn ymgymryd â rôl pennaeth, dylid cofnodi'r rôl uwch ar gyfer yr unigolyn yn y CBGY (hynny yw, swydd y pennaeth). |

Noder bod hyn yn golygu y byddai'r contract ar gyfer y swydd barhaol yn cau ac yn agor unwaith eto pan fydd y rôl uwch wedi dod i ben.

## Cyflog a chontract

| | | | |
|---|---|---|---|
| Enw'r maes | **Rhif yr AALl** | Hyd y maes | **3** |
| Math o faes | **Alffaniwmerig** | Gorfodol ar gyfer | **Pob aelod o staff sy'n athro cymwysedig** |

| | |
|---|---|
| Rheswm | I nodi awdurdod lleol yr ysgol y mae contract yr aelod o'r gweithlu'n gysylltiedig ag ef. |
| Cofnodion dilys | Yn cynnwys tri digid yn yr ystod:<br><br>**660** Ynys Môn<br>**661** Gwynedd<br>**662** Conwy<br>**663** Sir Ddinbych<br>**664** Sir y Fflint<br>**665** Wrecsam<br>**666** Powys<br>**667** Ceredigion<br>**668** Sir Benfro<br>**669** Sir Gaerfyrddin<br>**670** Abertawe<br>**671** Castell-nedd Port Talbot<br>**672** Pen-y-bont ar Ogwr<br>**673** Bro Morgannwg<br>**674** Rhondda Cynon Taf<br>**675** Merthyr Tudful<br>**676** Caerffili<br>**677** Blaenau Gwent<br>**678** Torfaen<br>**679** Mynwy<br>**680** Casnewydd<br>**681** Caerdydd |
| Nodiadau | Data enghreifftiol: **660**<br><br>Dyma rif yr awdurdod lleol (rhif yr awdurdod addysg lleol gynt) y mae'r person yn gweithio ynddo. |

## Cyflog a chontract

| | | | |
|---|---|---|---|
| Enw'r maes | **Rhif yr ysgol** | Hyd y maes | **4** |
| Math o faes | **Alffaniwmerig** | Gorfodol ar gyfer | **Y gweithlu cyfan** |

| | |
|---|---|
| Rheswm | I nodi'r ysgol(ion) y mae'r aelod o'r gweithlu wedi'i gontractio i weithio ynddi/ynddynt. |
| Cofnodion dilys | Yn cynnwys pedwar digid, yn yr ystod:<br>**1000 – 1099** Ysgolion meithrin<br>**1100 – 1199** Unedau Cyfeirio Disgyblion<br>**1900 – 1999** EOTAS (defnyddiwyd cyn 2010 - gweler 9000)<br>**2000 – 2999** Ysgolion cynradd cymunedol<br>**3000 – 3299** Ysgolion cynradd gwirfoddol a reolir<br>**3300 – 3399** Ysgolion cynradd gwirfoddol a gynorthwyir<br>**4000 – 4499** Ysgolion uwchradd cymunedol<br>**4500 – 4599** Ysgolion uwchradd gwirfoddol a reolir<br>**4600 – 4699** Ysgolion uwchradd gwirfoddol a gynorthwyir<br>**5200 – 5299** Ysgolion cynradd sefydledig<br>**5400 – 5499** Ysgolion uwchradd sefydledig<br>**5500 – 5699** Ysgolion canol cymunedol<br>**5700 – 5799** Ysgolion canol sefydledig<br>**5800 – 5899** Ysgolion canol gwirfoddol a reolir<br>**5900 – 5999** Ysgolion canol gwirfoddol a gynorthwyir<br>**6000 – 6999** Ysgolion annibynnol<br>**7000 – 7999** Ysgolion arbennig<br>**9000** EOTAS<br>**9100** Ar gyfer awdurdodau lleol sy'n cwblhau datganiad data '**cyflog, adnoddau dynol ac absenoldeb'** CBGY yn unig. |
| Nodiadau | Data enghreifftiol: **4099**<br><br>Dyma rif yr ysgol a ddefnyddir i nodi'r ysgol y mae'r aelod o staff wedi'i gontractio i weithio ynddi. Os yw'r unigolyn wedi'i gontractio i weithio ar draws nifer o ysgolion, gellir gadael y maes hwn yn wag. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Enw'r maes | **Cyfradd ddyddiol / yn ôl yr awr** | Hyd y maes | **1** |
| Math o faes | **Alffaniwmerig** | Gorfodol ar gyfer | **Y gweithlu cyfan** |

| | |
|---|---|
| Rheswm | I nodi a delir cyfradd ddyddiol / yn ôl yr awr i aelod o staff. |
| Cofnodion dilys | **1** Cywir<br>**0** Anghywir |
| Nodiadau | Data enghreifftiol: **0**<br><br>Dim ond ar gyfer athrawon sydd â chytundeb lefel gwasanaeth y mae'r eitem ddata hon, ac mae'n dangos a delir cyfradd ddyddiol i drydydd parti, megis asiantaeth gyflenwi neu'r awdurdod lleol, ar gyfer yr athro. Os cofnodir **1** (cywir), nid oes angen darparu unrhyw wybodaeth arall ynghylch cyflog; hynny yw, yr ystod gyflog, lefel, y math o daliad ychwanegol, swm y taliad ychwanegol, neu'r cyflog sylfaenol. Hefyd, nid oes angen nodi nifer yr wythnosau bob blwyddyn, ond **rhaid** nodi'r oriau a weithiwyd bob wythnos a'r oriau cyfwerth ag amser llawn. |

## Cyflog a chontract

| | | | |
|---|---|---|---|
| Enw'r maes | **Ystod cyflog** | Hyd y maes | **2** |
| Math o faes | **Alffaniwmerig** | Gorfodol ar gyfer | **Y gweithlu cyfan** |

Rheswm

I nodi ystod cyflog aelodau'r gweithlu.

Cofnodion dilys

| | |
|---|---|
| **LD** | Arweinyddiaeth |
| **TE** | Athrawon - prif ystod |
| **TU** | Athrawon - ystod uwch |
| **LP** | Ymarferwyr arweiniol |
| **UT** | Athrawon heb gymhwyso |
| **SO** | Soulbury |
| **NJ** | Cyd-gyngor Cenedlaethol (gwasanaethau llywodraeth leol) |
| **OT** | Arall |

Nodiadau

Data enghreifftiol: **TU**

**Rhaid** nodi'r ystod cyflog perthnasol ar gyfer pob aelod o staff mewn gwasanaeth reolaidd, oni bai bod y *gyfradd ddyddiol* yn **1**.

Ar gyfer staff nad ydynt yn athrawon, dylid nodi **NJ** neu **OT**.

Ar gyfer athrawon, bydd hyn yn dibynnu ar eu swydd a ph'un a ydynt wedi croesi'r trothwy i'r ystod cyflog uwch.

Lle darperir ystod cyflog, gofynnir i leoliadau ofalu eu bod yn nodi'r ystod gywir. Dylid defnyddio **LD** ar gyfer staff mewn swyddi arwain **yn unig**; er enghraifft penaethiaid, penaethiaid gweithredol, dirprwy benaethiaid a phenaethiaid cynorthwyol, ac **nid** ar gyfer athrawon dosbarth.

## Cyflog a chontract

| | | | |
|---|---|---|---|
| Enw'r maes | **Lefel** | Hyd y maes | **2** |
| Math o faes | **Alffaniwmerig** | Gorfodol ar gyfer | **Y gweithlu cyfan** |
| Rheswm | I nodi ar ba bwynt ar y raddfa gyflog y mae pob aelod o'r gweithlu. | | |
| Cofnodion dilys | Rhif yn yr ystod **99**. | | |
| Nodiadau | Data enghreifftiol: **3** | | |

## Cyflog a chontract

| | | | |
|---|---|---|---|
| Enw'r maes | **Cyflog sylfaenol** | Hyd y maes | **10** |
| Math o faes | **Alffaniwmerig** | Gorfodol ar gyfer | **Y gweithlu cyfan** |

| | |
|---|---|
| Rheswm | I nodi cyflog sylfaenol pob aelod o staff. |
| Cofnodion dilys | Rhif yn yr ystod **9999999.99**. |

Nodyn

Data enghreifftiol: **35000.00**

**Rhaid** nodi cyflog sylfaenol ar gyfer pob athro a staff cymorth mewn gwasanaeth reolaidd na chofnodwyd **1** (cywir) ar eu cyfer ar gyfer *cyfradd ddyddiol/yn ôl yr awr*, hyd yn oed os nodwyd ystod gyflog.

**Rhaid** i'r cyflog sylfaenol adlewyrchu cyflog blynyddol aelod o staff ar ddiwrnod y cyfrifiad. Ni ddylai gynnwys unrhyw daliadau ychwanegol neu lwfansau. **Ni cheir** addasu cyflog staff rhan-amser neu staff tymhorol i fyny i gyflog aelod o staff cyfatebol amser llawn.Hefyd, **ni cheir** addasu cyflog i lawr ar gyfer aelod o staff a ddechreuodd weithio yn ystod y flwyddyn. Os caiff unrhyw elfennau o'r cyflog eu gwarchod **rhaid** eu hadlewyrchu yn y cyflog sylfaenol.

Mae'n bosibl y bydd y rheolau dilysu'n tynnu sylw at gyflog sylfaenol anarferol o isel. Ni ddisgwylir y bydd unrhyw aelod o staff yn cael llai na hyn ac yn dal i fodloni'r meini prawf ar gyfer eu cynnwys yn y cyfrifiad.

Dyma enghreifftiau o sut y dylid cofnodi cyflog sylfaenol:

*Enghraifft 1: mae aelod o staff yn gweithio'n amser llawn drwy gydol y flwyddyn ac yn ennill cyflog o £30,000 a thaliadau ychwanegol o £2,000. Cyflog sylfaenol = £30,000.*

*Enghraifft 2: mae dau aelod o staff yn rhannu'r swydd a ddisgrifir yn Enghraifft 1, a'r ddau'n gweithio 0.5 cyfwerth ag amser llawn drwy gydol y flwyddyn ac yn rhannu'r taliadau ychwanegol o £2,000 rhyngddynt. Y cyflog sylfaenol ar gyfer y ddau rannwr swydd = £15,000.*

*Enghraifft 3: mae aelod o staff yn cael ei gyflogi yn y swydd a ddisgrifir yn Enghraifft 1 ym mis Mehefin ar sail amser llawn. Cyflog sylfaenol = £30,000.*

## Cyflog a chontract

| | | | |
|---|---|---|---|
| Enw'r maes | **Cyflog a warchodir** | Hyd y maes | **1** |
| Math o faes | **Boolean** | Gorfodol ar gyfer | **Y gweithlu cyfan** |

| | |
|---|---|
| Rheswm | Mae'r eitem ddata yn nodi a warchodir unrhyw elfen o gyflog athro. |
| Cofnodion dilys | **1** Cywir<br>**0** Anghywir |
| Nodiadau | Data enghreifftiol: **0**<br><br>I gael rhagor o wybodaeth am gyflogau a warchodir, gweler Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (STPCD) (paragraffau 29 i 37). |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Enw'r maes | **Math o daliad ychwanegol** | Hyd y maes | **3** |
| Math o faes | **Alffaniwmerig** | Gorfodol ar gyfer | **Y gweithlu cyfan** |

| | |
|---|---|
| Rheswm | I nodi unrhyw daliadau ychwanegol y mae'r aelod o'r gweithlu yn eu derbyn. |
| Cofnodion dilys | **TL1** Taliadau cyfrifoldeb addysgu a dysgu 1<br>**TL2** Taliadau cyfrifoldeb addysgu a dysgu 2<br>**TL3** Taliadau cyfrifoldeb addysgu a dysgu 3<br>**RAR** Recriwtio a chadw staff<br>**SEN** Lwfans anghenion dysgu ychwanegol<br>**ACT** Lwfans ar gyfer ymgymryd â rôl ar lefel uwch<br>**RES** Dyletswyddau preswyl<br>**OOS** Gweithgareddau y tu allan i'r ysgol<br>**REC** Cymhellion recriwtio<br>**UQT** Athrawon heb gymhwyso<br>**PPS** Taliadau perfformiad i athrawon ar secondiad<br>**OTH** Arall |
| Nodiadau | Data enghreifftiol: **TL3**<br><br>Rhaid i daliadau ychwanegol gynnwys yr holl daliadau a gafwyd ers **1 Tachwedd 2022**, heb gynnwys taliadau cyflog.<br><br>Ar gyfer pob cofnod unigol, **rhaid** cofnodi unrhyw daliadau ychwanegol y mae aelod o staff yn eu derbyn fel rhan o'i gontract. Gellir cofnodi mwy nag un taliad ychwanegol. **Rhaid** dewis categori unrhyw daliadau ychwanegol.<br><br>Mae angen cofnodi taliadau **TL1**, **TL2** a **TL3** ar wahân. Dylid hefyd cofnodi taliadau perfformiad i athrawon ar secondiad ar wahân. I gael rhagor o wybodaeth am y taliadau hyn, gweler Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (STPCD) (rhan 4). Dylid gofalu bod y categorïau cywir wedi'u cofnodi. Ni ddylid cynnwys buddion mewn nwyddau.<br><br>**Rhaid** i daliadau ar gyfer gweithgareddau y tu allan i'r ysgol gael eu trin yn yr un modd ag unrhyw daliad ychwanegol arall. Hynny yw, rhaid eu cynnwys os yw'r contract cysylltiedig ar waith ar ddyddiad y cyfrifiad a bod y taliad wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn academaidd flaenorol. |

## Cyflog a chontract

| | | | |
|---|---|---|---|
| Enw'r maes | **Swm taliad ychwanegol** | Hyd y maes | **10** |
| Math o faes | **Alffaniwmerig** | Gorfodol ar gyfer | **Y gweithlu cyfan** |

| | |
|---|---|
| Rheswm | I nodi swm unrhyw daliad ychwanegol y mae'r aelod o'r gweithlu yn ei dderbyn. |
| Cofnodion dilys | Rhif yn yr ystod **9999999.99**. |
| Nodiadau | Data enghreifftiol: **2500.00**<br><br>Ar gyfer pob taliad ychwanegol, dylid nodi'r swm blynyddol gwirioneddol a dalwyd ers **1 Tachwedd 2024**. Dylai unrhyw daliadau untro ddangos y swm llawn a gafwyd. Os rhennir lwfans yn gyfartal rhwng dau berson, y swm ar gyfer pob person fyddai hanner y lwfans - hynny yw, y swm a gawsant mewn gwirionedd.<br><br>Gofalwch eich bod yn nodi'r swm cywir wrth gofnodi taliadau ychwanegol. |

## Cyflog a chontract

| | | | |
|---|---|---|---|
| Enw'r maes | **Dyddiad dechrau taliad ychwanegol** | Hyd y maes | **10** |
| Math o faes | **Dyddiad** | Gorfodol ar gyfer | **Pob athro a chynorthwyydd addysgu sydd ag amserlen** |

| | |
|---|---|
| Rheswm | I nodi dyddiad dechrau unrhyw daliad ychwanegol a gafwyd gan yr aelod o'r gweithlu. |
| Cofnodion dilys | Dyddiad ar ffurf **CCBB-MM-DD**. |
| Nodiadau | Data enghreifftiol: **2024-11-12**<br><br>**Rhaid** cofnodi'r dyddiad dechrau ar gyfer taliadau ychwanegol **TL3**.<br><br>Gall athro dosbarth gael taliad ychwanegol math **TL3** ar gyfer prosiectau gwella ysgol sy'n amlwg am gyfnod penodol o amser, neu ar gyfer cyfrifoldebau untro a arweinir yn allanol.<br><br>**Rhaid** penderfynu ar gyfnod y taliad ychwanegol **TL3** ar ddechrau'r taliad hwnnw.<br><br>Gellir cofnodi hyn ar gyfer pob math o daliad ychwanegol, ond dim ond ar gyfer taliadau ychwanegol **TL3** y mae'r wybodaeth hon yn orfodol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Enw'r maes | **Dyddiad diwedd taliad ychwanegol** | Hyd y maes | **10** |
| Math o faes | **Alffaniwmerig** | Gorfodol ar gyfer | **Pob athro a chynorthwyydd addysgu sydd ag amserlen** |

| | |
|---|---|
| Rheswm | I nodi dyddiad diwedd unrhyw daliad ychwanegol a gafwyd gan yr aelod o'r gweithlu. |
| Cofnodion dilys | Dyddiad ar ffurf **CCBB-MM-DD**. |
| Nodiadau | Data enghreifftiol: **2025-01-31**<br><br>**Rhaid** cofnodi dyddiadau dod i ben ar gyfer taliadau ychwanegol **TL3**.<br><br>Gall athro dosbarth gael taliad ychwanegol math **TL3** ar gyfer prosiectau gwella ysgol sy'n amlwg am gyfnod penodol o amser, neu ar gyfer cyfrifoldebau untro a arweinir yn allanol.<br><br>**Rhaid** penderfynu ar gyfnod y taliad ychwanegol **TL3** ar ddechrau'r taliad hwnnw.<br><br>Gellir cofnodi hyn ar gyfer pob math o daliad ychwanegol, ond dim ond ar gyfer taliadau ychwanegol **TL3** y mae'r wybodaeth hon yn ofodol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Enw'r maes | **Oriau sy'n cael eu gweithio bob wythnos** | Hyd y maes | **5** |
| Math o faes | **Alffaniwmerig** | Gorfodol ar gyfer | **Pob athro a chynorthwyydd addysgu sydd ag amserlen** |

| | |
|---|---|
| Rheswm | Nifer yr oriau sy'n cael eu gweithio mewn wythnos arferol ar gyfer pob aelod o staff. |
| Cofnodion dilys | Rhif yn yr ystod **99.99**. |

Nodiadau

Data enghreifftiol: **32.5**

Bydd y rheolau dilysu'n creu ymholiad os yw'r cyfanswm cyfwerth ag amser llawn ar gyfer pob contract sydd ar waith gan unrhyw unigolyn ar ddiwrnod y cyfrifiad yn fwy nag 1.0. Felly, mewn achosion lle mae gan aelod o staff fwy nag un contract, gofynnir i ysgolion ac awdurdodau lleol ofalu nad ydynt yn rhoi cyfanswm cyfwerth ag amser llawn o fwy na 1.0 ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol.

**DS**: Rhaid i bob sefydliad sicrhau bod yr oriau sy'n cael eu gweithio bob wythnos yn cael eu cofnodi'n gywir. Y data sydd eu hangen yn y cyfrifiad yw nifer y oriau sy'n cael eu gweithio mewn wythnos arferol. Ar gyfer aelodau o staff sydd wedi'u cyflogi am fwy na 28 diwrnod, dylid cofnodi nifer yr oriau a weithiwyd mewn wythnos arferol. Peidiwch â chofnodi dim oriau ar gyfer contractau staff unigol yn y CBGY. Gallai hyn gynnwys staff a gyflogir drwy drefniadau 'dim oriau' lle na ellir cyfrif nifer yr oriau sy'n cael eu gweithio. Rhaid i nifer yr oriau ar gyfer staff ar gontractau dim oriau adlewyrchu'r oriau y maent yn eu gweithio mewn wythnos arferol, a dylid cyfrif y cyflog sylfaenol yn unol â'r oriau hynny.

Cofnodir yr oriau fel ffigurau degol, nid oriau a munudau (mae 27.5 yn golygu 27 awr a hanner).

Gall yr oriau safonol amrywio rhwng awdurdodau lleol.

Ar gyfer athrawon, gellir cofnodi'r oriau sy'n cael eu gweithio bob wythnos fel a ganlyn:

- ar sail yr oriau cyfeiriedig a weithiwyd bob wythnos. Yr oriau cyfeiriedig yw'r oriau cyfartalog bob wythnos y

mae'n ofynnol i athro dosbarth fod yn yr ysgol. Mae hyn yn cynnwys gwasanaeth ond nid amser cinio. Ystyrir bod athro amser llawn yn gweithio 32.5 awr cyfeiriedig yr wythnos fel arfer, a dylid cyfrif oriau cyfeiriedig wythnosol athrawon rhan-amser ar sail pro rata. Er enghraifft, byddai athro sy'n gweithio dau ddiwrnod yr wythnos yn gweithio 13 awr cyfeiriedig yr wythnos.

Gallai'r canllaw cyflym canlynol fod yn ddefnyddiol i drosi'r nifer cyfwerth ag amser llawn dan gontract i nifer yr oriau a weithiwyd bob wythnos.

| Cymhareb cyfwerth ag amser llawn | Oriau yr wythnos |
|---|---|
| 0.1 | 3.25 |
| 0.2 | 6.5 |
| 0.3 | 9.75 |
| 0.4 | 13 |
| 0.5 | 16.25 |
| 0.6 | 19.5 |
| 0.7 | 22.75 |
| 0.8 | 26 |
| 0.9 | 29.25 |
| 1.0 | 32.5 |

Ar gyfer cynorthwywyr addysgu, yr oriau a weithiwyd bob wythnos fydd oddeutu 37 awr fel arfer.

Caiff gwybodaeth am oriau wedi'u hamserlennu athrawon a rhai cynorthwywyr addysgu ei darparu ym modiwl y cwricwlwm yn y datganiad ysgol. Fodd bynnag, mae nifer yr oriau sy’n cael eu gweithio bob wythnos yn bwysig ar gyfer cyfrif oriau cyfwerth ag amser llawn aelod o staff, a bydd yn ddefnyddiol i ddilysu unrhyw wybodaeth a ddarperir ym modiwl y cwricwlwm.

**Mae'n bwysig bod yr oriau sy'n cael eu gweithio bob wythnos a'r oriau cyfwerth ag amser llawn yn cael eu cofnodi ar yr un sail ar gyfer contract penodol, gan y byddant yn cael eu cyfuno i gyfrif y gymhareb cyfwerth ag amser llawn.**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Enw’r maes | **Oriau cyfwerth ag amser llawn bob wythnos** | Hyd y maes | **5** |
| Math o faes | **Alffaniwmerig** | Gorfodol ar gyfer | **Pob ysgol** |

| | |
|---|---|
| Rheswm | I nodi nifer yr oriau cyfwerth ag amser llawn sy'n cael eu gweithio bob wythnos. |
| Cofnodion dilys | Rhif yn yr ystod **1-99**. |
| Nodiadau | Data enghreifftiol: **32.50**<br><br>Cofnodir yr oriau fel ffigurau degol, ac nid oriau a munudau (mae 27.5 yn golygu 27 awr a hanner). Mae'r oriau cyfwerth ag amser llawn bob wythnos yn debygol o fod yn oriau safonol ym mhob awdurdod lleol ar gyfer swyddi neu rolau penodol.<br><br>Mae'r eitem ddata hon yn golygu nifer yr oriau bob wythnos a fyddai'n cael eu gweithio er mwyn i swydd neu rôl fod yn un amser llawn. Ar gyfer athrawon, gellir seilio'r oriau hyn ar nifer yr oriau cyfeiriedig neu oriau STTW bob wythnos, fel y disgrifir uchod. Ar gyfer cynorthwywyr addysgu, mae'r oriau cyfwerth ag amser llawn bob wythnos yn debygol o fod yn oddeutu 37 awr. Gallai'r oriau cyfwerth ag amser llawn bob wythnos ar gyfer staff cymorth eraill amrywio.<br><br>Yr hyn sy'n bwysig yw bod yr oriau sy'n cael eu gweithio bob wythnos a'r oriau cyfwerth ag amser llawn bob wythnos yn cael eu cofnodi ar yr un sail ar gyfer contract penodol, er mwyn iddynt allu cael eu cyfuno i gyfrif y gymhareb cyfwerth ag amser llawn. |

## Cyflog a chontract

| | | | |
|---|---|---|---|
| Enw'r maes | **Cyfwerth ag amser llawn** | Hyd y maes | **4** |
| Math o faes | **Alffaniwmerig** | Gorfodol ar gyfer | **Pob ysgol** |

| | |
|---|---|
| Rheswm | I adlewyrchu'r oriau sy'n cael eu gweithio bob wythnos fel cyfran o'r oriau cyfwerth ag amser llawn. |
| Cofnodion dilys | Rhif yn yr ystod **9.99**. |
| Nodiadau | Data enghreifftiol: **0.88**<br><br>Ar gyfer staff sydd wedi'i gyflogi'n amser llawn mae'n hanfodol bod yr oriau sy'n cael eu gweithio bob wythnos yn hafal i neu'n fwy na'r oriau cyfwerth ag amser llawn. Os bydd yr oriau sy'n cael eu gweithio bob wythnos yn llai na'r oriau cyfwerth ag amser llawn bydd yr aelod staff yn cael ei gyfri fel rhan-amser.<br><br>Dylai'r cymhareb cyfwerth ag amser llawn adlewyrchu'r nifer o wythnosau bob blwyddyn a weithir a hawliau gwyliau blynyddol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Enw’r maes | **Wythnosau bob blwyddyn** | Hyd y maes | **2** |
| Math o faes | **Alffaniwmerig** | Gorfodol ar gyfer | |

| | |
|---|---|
| Rheswm | Mae'r eitem ddata hon yn cofnodi am faint o wythnosau bob blwyddyn y mae aelod o staff yn cael ei dalu, gan gynnwys unrhyw wyliau gyda thâl. |
| Cofnodion dilys | Rhif yn yr ystod **99**.**999** |
| Nodiadau | Data enghreifftiol: **52.143**<br><br>Os yw'r tâl am yr oriau contract yn cael ei rannu ar draws y flwyddyn gyfan, yr oriau contract mewn wythnosau sydd angen eu nodi. Er enghraifft, os oes gan unigolyn gontract i weithio yn ystod y tymor yn unig am 37 wythnos y flwyddyn, ond mae'n cael ei dalu ar ffurf 12 rhandaliad misol, dylid nodi 37 wythnos yn hytrach na 52.143.<br><br>Mae'r wybodaeth hon yn bwysig er mwyn cyfrif a dadansoddi cyflogau pro rata.<br><br>Os yw athro'n gweithio mewn sawl ysgol, **rhaid** cofnodi'r eitem hon ar gyfer pob ysgol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Enw’r maes | **Diwrnod absenoldeb cyntaf** | Hyd y maes | **10** |
| Math o faes | **Dyddiad** | Gorfodol ar gyfer | **Pob ysgol** |

| | |
|---|---|
| Rheswm | I nodi diwrnod cyntaf cyfnod absenoldeb aelod o'r gweithlu. |
| Cofnodion dilys | Dyddiad ar ffurf **CCBB-MM-DD**. |
| Nodiadau | Data enghreifftiol: **2024-12-01**<br><br>Rhaid cofnodi diwrnod cyntaf cyfnod o absenoldeb.<br><br>Diwrnod gwaith cyntaf yr absenoldeb fydd hwn fel arfer, ond caniateir nodi diwrnod nad yw'n ddiwrnod gwaith. Er enghraifft, os yw athro sy'n gweithio ddydd Mercher tan ddydd Gwener yn unig yn hysbysu'r ysgol ddydd Llun ei fod yn sâl ac na fydd yn y gwaith ddydd Mercher, gallai'r ysgol gofnodi dydd Llun fel diwrnod cyntaf yr absenoldeb. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod yr eitem ddata *diwrnodau gwaith a gollwyd* yn cofnodi'n gywir nifer y diwrnodau gwaith a gollwyd o ganlyniad i'r absenoldeb.<br><br>Mae angen cofnodion absenoldeb ar gyfer unrhyw gyfnodau absenoldeb a ddechreuodd neu a ddaeth i ben yn ystod y flwyddyn academaidd flaenorol (o 1 Medi i 31 Awst). Os gadawodd unrhyw athrawon yr ysgol cyn diwrnod y Cyfrifiad, ond eu bod wedi cael cyfnodau absenoldeb yn ystod y flwyddyn academaidd flaenorol, yna bydd angen cyflwyno cofnodion absenoldeb ar eu cyfer. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Enw'r maes | **Diwrnod absenoldeb olaf** | Hyd y maes | **10** |
| Math o faes | **Dyddiad** | Gorfodol ar gyfer | **Pob ysgol** |

| | |
|---|---|
| Rheswm | I nodi diwrnod olaf cyfnod absenoldeb aelod o'r gweithlu. |
| Cofnodion dilys | Dyddiad ar ffurf **CCBB-MM-DD**. |

Nodiadau

Data enghreifftiol: **2024-12-06**

Dylid cofnodi diwrnod olaf yr absenoldeb ym mhob achos ac eithrio pan fo cyfnod yr absenoldeb yn parhau ar ddyddiad y cyfrifiad.

O ran diwrnod cyntaf yr absenoldeb, gall fod yn ddiwrnod gwaith arferol ar gyfer yr athro neu gynorthwyydd addysgu neu'n ddiwrnod arall. Er enghraifft, os bydd rhywun sy'n gweithio ddydd Llun i ddydd Mercher wedi bod yn absennol oherwydd salwch a'i fod yn hysbysu'r ysgol ddydd Gwener ei fod yn well ac yn ddigon da i ddychwelyd i'r gwaith ddydd Llun, gall yr ysgol gofnodi dydd Gwener fel diwrnod olaf yr absenoldeb.

**Rhaid** i'r diwrnod olaf fod yr un peth â'r diwrnod cyntaf ar gyfer un diwrnod y salwch. Os darperir nodyn yn egluro'r salwch, diwrnod olaf yr absenoldeb yw'r diwrnod olaf y mae'r nodyn yn ddilys ar ei gyfer.

Mae angen cofnodion absenoldeb ar gyfer unrhyw gyfnodau absenoldeb a ddechreuodd neu a ddaeth i ben yn ystod y flwyddyn academaidd flaenorol (o 1 Medi i 31 Awst). Os gadawodd unrhyw athrawon yr ysgol cyn diwrnod y Cyfrifiad, ond eu bod wedi cael cyfnodau absenoldeb yn ystod y flwyddyn academaidd flaenorol, yna bydd angen cyflwyno cofnodion absenoldeb ar eu cyfer. Os yw'r absenoldeb yn parhau pan gyflwynir datganiad y CBGY, rhaid cynnwys yr absenoldeb heb nodi dyddiad diwedd yr absenoldeb.

Os yw'r absenoldeb yn parhau ar ddyddiad y CBGY, dylid cynnwys yr absenoldeb ond ni ddylid nodi dyddiad diwedd ar ei gyfer.

Os yw'r absenoldeb yn gorffen yn y cyfnod rhwng 1 Medi 2018 a'r dyddiad y cyflwynir y datganiad, a bod dyddiad diwedd yr absenoldeb yn hysbys, dylid cofnodi'r dyddiad hwnnw a hefyd,

os yw'r systemau'n caniatáu hynny, ei gyflwyno.

---

| | | | |
|---|---|---|---|
| Enw'r maes | **Diwrnodau gwaith a gollwyd** | Hyd y maes | **5** |
| Math o faes | **Alffaniwmerig** | Gorfodol ar gyfer | **Pob ysgol** |

| | |
|---|---|
| Rheswm | I nodi nifer y diwrnodau gwaith a gollwyd oherwydd yr absenoldebau sy'n dod o dan y categorïau absenoldeb yn unig. |
| Cofnodion dilys | Rhif yn yr ystod **99.99**. |

Nodiadau

Data enghreifftiol: **4.5**

Dim ond ar gyfer absenoldebau salwch neu absenoldebau sy'n gysylltiedig â beichiogrwydd y mae angen yr eitem ddata hon. Os yw ysgolion neu awdurdodau lleol yn dymuno cofnodi diwrnodau gwaith a gollwyd oherwydd mathau eraill o absenoldeb, gallant wneud hynny. Fodd bynnag, mae angen iddynt wybod y gallai'r data gael eu tynnu o'u systemau a'u cyflwyno fel rhan o'r CBGY, ond ni adroddir arnynt.

Cofnodir y diwrnodau gwaith a gollwyd ar ffurf diwrnodau a rhaid eu hadrodd i'r hanner diwrnod agosaf. Er enghraifft, byddai athro amser llawn sy'n absennol oherwydd salwch o ganol dydd ddydd Gwener tan ddiwedd y dydd ddydd Llun yn cofnodi bod 1.5 diwrnod gwaith wedi'i golli.

Os yw'r absenoldeb salwch neu'r absenoldeb sy'n gysylltiedig â beichiogrwydd yn parhau ar yr adeg y cyflwynir y datganiad, dylid gadael nifer y diwrnodau gwaith a gollwyd yn wag. Rhaid cofnodi nifer y diwrnodau gwaith a gollwyd yn y system MIS pan fydd cyfnod yr absenoldeb wedi dod i ben.

Ar gyfer athrawon rhan-amser, dylai nifer y diwrnodau gwaith a gollwyd adlewyrchu'r sesiynau y byddai'r person wedi'u gweithio pe na bai wedi bod yn absennol oherwydd salwch. Er enghraifft, mae athro'n cofnodi cyfnod o absenoldeb salwch o ddechrau dydd Mawrth i ddiwedd dydd Gwener - cyfnod o bedwar diwrnod gwaith, felly:

- os mai dydd Llun, dydd Mawrth a dydd Mercher yw ei wythnos waith arferol, nifer y diwrnodau gwaith a gollwyd fyddai 2.0; neu
- os mai dydd Mercher, dydd Iau a dydd Gwener yw ei wythnos waith arferol, nifer y diwrnodau gwaith a gollwyd fyddai 3.0.

Mewn achosion lle mae athro wedi'i gontractio i weithio llai na hanner diwrnod, ac mae'n absennol oherwydd salwch neu am reswm sy'n gysylltiedig â beichiogrwydd ar un o'i ddiwrnodau gwaith, dylid cofnodi hanner diwrnod fel nifer y diwrnodau a gollwyd. Mae'n arfer da bod yr holl wybodaeth yn cael ei chasglu a'i chadarnhau gyda'r aelod staff mewn cyfarfod 'dychwelyd i'r gwaith'.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Enw’r maes | **Categori absenoldeb** | Hyd y maes | **3** |
| Math o faes | **Alffaniwmerig** | Gorfodol ar gyfer | **Pob ysgol** |

| | |
|---|---|
| Rheswm | I nodi'r categori ar gyfer pob un o gyfnodau absenoldeb unigolyn. |
| Cofnodion dilys | **SIC** Salwch<br>**MAT** Mamolaeth<br>**PRG** Absenoldeb sy'n gysylltiedig â beichiogrwydd<br>**PUB** Absenoldeb â thâl ar gyfer dyletswyddau cyhoeddus<br>**SEC** Secondiad<br>**UNA** Absenoldeb anawdurdodedig<br>**UNP** Absenoldeb awdurdodedig heb dâl<br>**OTH** Absenoldeb awdurdodedig arall (e.e. absenoldeb tosturiol) |

Nodiadau

Data enghreifftiol: **SIC**

Dylid dewis y categori absenoldeb priodol ar gyfer pob cyfnod o absenoldeb.

Mae'r set codau ar lefel uchel. Er enghraifft, dim ond un categori sydd ar gael ar gyfer salwch, er bod categori ar wahân ar gyfer absenoldebau sy'n gysylltiedig â beichiogrwydd. Gallai fod yn ofynnol yn lleol i gofnodi mwy o fanylion am yr absenoldeb salwch, ond ni fydd yr wybodaeth hon yn cael ei chyflwyno i'r adran.

Mae hyfforddiant yn y set codau ar gyfer absenoldeb: gall ysgolion ac awdurdodau gofnodi hyfforddiant fel absenoldeb os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Fodd bynnag, nid oes angen nodi absenoldeb oherwydd hyfforddiant yn y CBGY, ond dylai ysgolion ac awdurdodau lleol fod yn ymwybodol y gallai unrhyw absenoldebau a gofnodir fel hyfforddiant gael eu cynnwys o hyd yn y casgliad a'u cyflwyno i'r adran. Bydd yr wybodaeth a gesglir yn cael ei defnyddio'n fewnol at ddibenion ymchwil ac ystadegol, ond ni chaiff ei hadrodd na'i chyhoeddi.

Caiff seibiant gyrfa ei gyfrif fel absenoldeb awdurdodedig di-dâl. Os yw athro wedi'i atal dros dro am resymau disgyblu, dylid cofnodi hyn fel absenoldeb awdurdodedig a hynny gyda thâl neu heb dâl fel y bo'n briodol. Os yw aelod o staff yn dychwelyd i'r gwaith yn raddol ar ôl cyfnod o salwch hirdymor,

dylid cofnodi ei fod yn absennol yn y cyfnodau y byddai wedi gweithio fel arfer. O ran cofnodi'r absenoldeb fel salwch neu absenoldeb awdurdodedig â thâl, bydd hynny'n dibynnu ar y polisïau Adnoddau Dynol lleol.

Enghreifftiau:

- dylid cofnodi absenoldeb mabwysiadu fel **OTH** (os yw'n absenoldeb â thâl) neu **UNP** (os yw'n absenoldeb heb dâl);
- dylid cofnodi absenoldeb am fod aelod o staff wedi'i atal dros dro am resymau disgyblu fel **OTH** (os yw'n absenoldeb â thâl) neu **UNP** (os yw'n absenoldeb heb dâl);
- dylid cofnodi absenoldeb oherwydd apwyntiadau meddygol neu salwch sy'n gysylltiedig â beichiogrwydd fel **PRT** (yn gysylltiedig â beichiogrwydd).
- dylid cofnodi absenoldeb mamolaeth fel **MAT**, ac nid **PRG**; a
- dylid cofnodi absenoldeb tadolaeth neu absenoldeb mabwysiadu fel **OTH** (os yw'n absenoldeb â thâl) neu **UNP** (os yw'n absenoldeb heb dâl).

---